YR YMOFYNYDD.

RHIF 40.] RHAGFYR, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

TRAETHAWD AR Y MODDION EFFEITHIOLAF I DDERCHAFU CYFLWR MOESOL EIN CENEDL.

(*Parhad o tudal* 249.)

AIL DOSPARTH. Y MODDION EFFEITHIOLAF ER ATTAL MEDDWDOD.

MAE y pwngc pwysig wedi dyfod yn awr o'm blaen, sef pa fodd mae attal ffrwd lifeiriol anghymedrolder? I hyn yr attebaf, fod dwy ffordd o weithredu i'r perwyl.

Er achub dynion rhag y pla dinystriol hwn, mae yn rhaid gweithredu arnynt yn FEWNOL, neu ALLANOL. Mae yn rhaid rhoddi iddynt nerth mewnol i wrthsefyll y brofedigaeth, neu symud y profedigaethau oddiwrthynt; rhaid ychwanegu y gallu ymddiffynol, neu wanhau y gallu ymosodol. Mae y ddau ddull yn dra buddiol, ond haedda y blaenaf y rhagoriaeth yn mhell; oblegid nid oes neb yn ddiogel rhag y gelyn hwn, ond yr hwn sydd wedi ei Foesol Arfogi, a nerth yn ei enaid ei hun, a gallu, egwyddor, ac ewyllys lawn o rinwedd.

Er cadw y dosparthion gweithgar rhag Meddwdod, rhaid gosod mewn gweithrediad yn eu plith, foddion gwybodaeth, moesoldeb, a gwellhad crefyddol; rhaid eu derchafu fel bodau rhesymol, a moesol, a dadblygu eu nhattur ardderchog. Ofer ydyw meddwl y gellir gwella y rhain o'u hangymedroldeb, tra y parhaont yr hyn ydynt mewn ystyriaethau eraill. Nid ydyw anghymedrolder yn bodoli eu cyflwr, a'u nhodweddiad yn unig, ond y mae yn rhan, neu arwydd eglur o'r diraddiad cyffredinol maent ynddo, ac nis gellir ei symmud heb dderchafu eu holl sefyllfa, a'u cymmeriad; fel engraifft, gallwn gyfeirio at aelod briwiedig; hyspys yw nad y fan honno yn unig raid talu sylw iddo, ond rhaid cadw yr holl gorph mewn trefn; efelly yn union gyda'r meddwl. Nid oes dim meddaf a all ein hymddiffyn rhag y brofedigaeth lem o Anghymedrolder, ond diwygiad, neu wellhad cyffredinol o'r holl ddyn, gesyd hyn ni yn ddiogel, fel na byddom yn felldith i'n hunain, nac i neb o'n hamgylch.

Os gofynir, pa fodd mae gallu moesol, nerth egwyddor a phethau ac mae yn an hebgorol anghenrheidiol eu cael, i ddyfod i feddiant y dosparth isel o gymdeithas? Attebaf mai yn 1af, cael mwy o hono ymhlith y rhai mwy galluog; oblegid mae

holl ddosparthion cymundeb gwladol, a rhyw gyd deimladau, a chyssylltiadau rhyngddynt.

Gwelwn yn amlwg os bydd Hunanolrwydd, Cnawdolrwydd ac Anhrefn, yn flodeuog ymhlith yr uwch raddolion, bydd fel rhyw adlewyrchiad o hono yn fuan oddiwrth y dosparthion iselach, ac mewn gwaeth a mwy dychrynllyd ddull. Dyna y dyn, a'r carwr goreu i gymedrolder ymhlith isel, ac uchel, sydd a'i nodweddiad a'i rodiad, yn dangos yn glir, a chryf, ymdrech moesol, hunan ymwadiad, llywodraeth ar y corph, awdurdod ar dwyll cyfoeth, a derchafiad egwyddor a barn. Nid yr hwn sydd yn gwneuthur rhyw un weithred hynod, ydyw cyfaill pennaf dynolryw, ond yr hwn ac y mae ei gymmeriad cyffredinol, yn amlygiad o fywyd, ac yspryd uwch a gwell, nac sydd yn llywodraethu y werin yn gyffredin: dyma rhai ydynt yn deilwng i'w galw yn Halen y Ddaear: mae gallu rhinwedd unigol yn wir yn maeddu pob gallu arall, ac ymosod llawer o'r rhain ynghyd, gyda meddwl disigl, a fyddai y moddion tebyccaf i ddiorseddu meddwdod a phob anghymedroldeb.

Moddion eraill, tebygol iawn o llwyddo er maeddu y drwg mawr o feddwdod, fyddai cael mwy o gyfeillgarwch, a chymundeb rhwng gwahanol raddau cymdeithas; mae y rhag-furiau sydd rhyngom yn ein dull presenol o wladychu, cyn belled ag y maent yn perthyn i gyd-deimlad, a chymundeb, rywbeth yn rhagfarnllyd, anfrawdol, a phartiol iawn; nid oes dim gwir ddynoliaeth i'w weled, dim parch i'r un nattur; ac yn hyn nid yw yn cydweddu a'r grefydd Gristionogol er ei phroffesu.

Y Dosparthion hynny o gymdeithas ac ydynt wedi eu goleuo, eu nerthu, a'u rhinweddoli, maent dan rwymau yn ol yspryd y Grefydd Gristionogol i gyfrannu i'r rheiny sydd yn fyr o'r pethau hyn; ni ddylai y gwan ei ddeall, y syrthiedig, a'r llwfr, gael eu llwyr dorri ymaith oddiwrlh y rhai ydynt ar uwch tir.

Na, dylai cyfathrach fod rhwng yr holl ddosparthion, ac ymdrechion diflino i gael eu gwneuthur, er eu hattal i dywys y naill y llall i bechodau gwarthus, ac anfoesoldeb. Dylai rhyw wrthryfel sanctaidd, fod yn wastad ar droed rhwng yr holl ddosparthion yn un blaid, yn erbyn pob drygau; a thaer ddymuniad ar Dduw am llwyddiant. Hawyr! "Ai nid o'r un gwaed y gwnawd pob cenedl?" ac a ydyw y parwydydd teneu, a fyddant megis y fory mewn tragwyddol ebargofiant, i dorri ymaith ein cyfeillach a'n gilydd, a'n cymmorth yn mhob dim i wrthwynebu ein gelynion tymorol ac yspryd ol? Rhag gormod meithder ar y pen yma, awn etto at ADDYSG LYTHERENOL, A MOESOL.

Clywir rhai yn bostio am "Wlad lawn o Freintiau." "Tywysogaeth addysgedig," a llawer o fympwy disail; ac eraill yn diraddio, yn cablu, a haeru pethau anmhrofadwy, gan ddangos Cenedl y Cymry, braidd yn farbariaid, o ran addysg lytherenol!

Nawr er egluro hyn, cyfeiriwn at y Daflen ganlynol, yr hon a ddengys ar unwaitn ein cyflwr ar y pen hwn mewn ber ardrem,

RHIFEDI YR YSGOLORION DYDDIOL MEWN CYFARTALEDD I'R BOBLOGAETH.

Y Flwyddyn.	Ysgolorion dyddiol.	Cyfartalrwydd i'r Boblogaeth.
1846 a 7	110,034	1 i 9
Sabbathol	238,740	1 i 4

Mae pwngc arall yn gydiol a hwn, sef, a ydyw addysg lytherenol, yn effeithio ar nodweddiad a moesoldeb y werin? Ai nad yw?

I'r dyben o ddadris y pwngc pwysig hwn mewn ffordd fer, cyfleaf etto dystiolaeth yr enwog Mr. Quitilette, yr hwn a addefir yr ystadegydd gorau yn

Ewrop. Yn ei "Sylwadau ar Ddyn," dywed fel hyn: "Mewn lle, ac nad oedd ond 451 [allan o fil] o blant yn myned i'r ysgol, cefais nifer y Troseddwyr yn 1, mewn 639 o'r trigolion: ond lle y cawn yr ysgolorion yn dyblu, yr oedd rhif y Troseddwyr yn lleihau 2 ran o 3! Yn y modd blaenaf a nodais, fe fyddai y cyfrifiad fel hyn, 16 o droseddwyr, mewn I0,000, o drigolion, ond lle bydd 940 o blant allan o fil yn myned dan addysg yn lle 451, ceid lleihad y troseddwyr o 16 i 6!! Dyfyniad arall allan o gofrestr y Brif Ddinas. Allan o'r 62,834, a gareharwyd yn y Brif Ddinas yn 1846, cawn y cyfrifiadau canlynol, pa rai ydynt wedi eu manwl brofi.

Heb allu darllen nac ysgrifenu	22,223
Yn gallu darllen, ac ysgrifenu yn anmherffaith	35,470
Yn darllen ac ysgrifenu yn dda.....	4,632
Yn rhagorol addysgedig	509

Oddiwrth y daflen fuddiol flaenorol, gwelwn fod ychydig o addysg, yn waeth na bod heb ddim! Addysg dda, yn bum gwell na hynny, ac addysg rhagorol yn 40 o weithiau yn rhagorach! Pwy meddaf a ddadlen mwyach yn erbyn addysg? Mae yn anghenrheidiol sylwi yma, nad ydyw yr addysg a weinyddir yn ein hysgolion dyddiol, yn cael ei thymeru yn ddigonol a moesoldeb. Dylai fod rhyw beth mewn addysg heblaw dysgu y rheolau gosodedig at ddarllen, ysgrifenu, rhifyddiaeth, neu ryw wyddorau er addasu y dyn i ennill ei fara beunyddiol; dylai fod ymdrechion i gymell i weithrediad serchiadau, a galluoedd rhagorol y nattur ddynol; nid rhyw reidrwydd, a rhyw arferiad gallofyddol ar yr efrydydd, yw gwir addysg, ond rhyw effeithiad gan feddyliau bywiog eraill, ar ysprydoedd yr ieuengtid; ond ysywaeth ychydig o hyn sydd mewn gweithrediad! Ond dylai gael ei dwyn i weithrediad cyffredinol, ac o'm rhan fy hun, ni chyfrifaf addysg genhedlaethol, yn werth ffiloreg; oni bydd ar yr egwyddorion a nodwyd. At ba ddyben? O ba werth yw golud gwladwriaethol, ond at godi i fynu genedl, gwell na ni ein hunain? O ba werth ydyw rhyddid, meddaf, onid i gymhell allan alluoedd pennaf pob dynsawd, o fewn ei therfynau? Pa beth ond gwellad dynolryw yw dyben mawr cymdeithas? Mae yn warth fod un deiliad, i un llywodraeth, o herwydd ei dlodi, yn fyr o foddion gwybodaeth, a manteision yw defnyddio. Paham meddaf, na bai oriau segur pawb, yn cael eu defnyddio er adeiladaeth Lenyddawl, Gwybodaeth o'r Brein Gelfau, Barddoniaeth, Cerddoriaeth, a'r cyffelyb? Yna ni byddai bylchion gan anghymedrolder i wthio i mewn, ond byddai yr oes yn un gadwyn o bethau adeiladol, er dwyn galluoedd y creadur rhesymol i weithrediad, ei wneuthur, yn gyssur a lles iddo ei hun, yn esiampl i'w deulu, eu gymydogion, ac wedi gorphen ei ddydd gwaith yn cael ei roddi yn ei fedd, a chymeriad gwerth i'w gerfio ar gof-faen, yn eiddo i'w deulu ar ei ol.

Rhag myned yn rhy faith yn y llwybr yma, cynnigaf Ddau lwybr etto, er csel perffaith fuddngoliaeth ar y gelyn hwn, ie y pennaf o feiau ein gwlad, sef anghymedrolder; a'r llwybr cyntaf a nodaf, ydyw, PEIDIO CEFNOGI DEFNYDDIAD PETHAU MEDDWAWL.

Mae yn eithaf amlwg, fod symudiad achos, yn symudiad effaith bob amser; efelly byddai difodiad diodydd meddwol, yn diffoddiant meddwdod. Yn y graddau y byddo diodydd meddwol yn cael eu deol o'n tai, ein byrddau, ein yspyttai, a phob man eu defnyddir, yn y gradd hwnw yn union y deolir meddwdod o'n plith; ac yn yr un cyfartalrwydd ag y bydd i'r rhai sydd mewn llywodraeth, ac yn meddu dylanwad yn y wladwriaeth, ymattal oddiwrth bethau meddwol, a thywys y rhai dan eu gofal i'r un llwybr, yn yr un cyfartalrwydd, meddaf y diflana y drwg mawr hwn. Gwrth ddadleuir gan lawer, "Os dechreuwn roddi i fynu ddefnyddiad y pethau mae eraill yn eu camddefnyddio, y bydd yn rhaid i ni rhoddi heibio pob peth: o-

---

D.S. Nid yw Addysg heb foesau ond rhoddi arf yn llaw ffol i gamweithredu. (Quitilette).

blegid nad oes dim, nad yw dynion yn gamddefnyddio." Rhaid addef yma, fod yn anhawdd gosod y terfyn, ac y mae i'r ymattaliad hwn, osod fel safle; ond gadewch i ni ymresymu yn garedig fel hyn. Pe gelwid arnom i roddi fynu rhyw gysur pwysig mewn bywyd, oherwydd fod eraill yn ei gamddefnyddio, er gwae, a thrueni, ni fyddem yn rhwym o bwyllo ac ystyried, cyn gweithredu; ond ni ellir cyfodi y fath wrthddadl yn hyn; oherwydd, nad ydyw Diodydd Meddwol o un fath yn gysur angenrheidiol, nac mewn un gradd yn gysur; nid ydynt yn rhoddi dim nerth, nid ydynt yn ymestyn dim o iechyd, ac fe ellir eu rhoddi heibio, heb deimlo dim colled, na niwed i'r corph na'r meddwl, nid ydynt yn cymmorth dim ar ddynion i ddwyn beichiau bywyd na chyflawni eu dyledswyddau chwaith. Ond mae dweyd fel hyn, yn unig, yn ymattaliad oddiwrth yr holl wir, nid yn unig nad oes daioni ynddynt, ond y maent yn niweidiol i'r corph, ac hyd yn nod yn eu ddefnyddiad cymmedrol, maent yn niweidiol iawn. Mae gennym dystiolaeth meddygon enwog, nad ydynt yn treulio fel bwydydd, ond yn cynniwair trwy yr holl gorph, heb gyfnewidiad, megis gwenwyn trwy yr holl drefniant; ac megis mathau eraill o wenwyn, gallant fod yn angenrheidiol weithiau yn feddyginiaethol, ond eu gwneuthur yn fwydydd i'r iach, nis gallant fod o les, am hynny yn sicr o fod yn niweidiol ni fwriadodd rhagluniaeth hwy yn ddiodydd mwy na chysglyn *(opium)* yn fwyd. Mae golygiad arall hefyd, heblaw nad ydynt o un lles, maent hyd nod yn yr arferiad cymmedrol o honynt, yn cyffroi rhyw chwant am ychwaneg yn barhaus, ac yn cenhedlu math o dwymyn sychedig a phoeth, nes yn anorchfygol yn y diwedd braidd, a'r canlyniadau mwyaf arswydawl o'u herwydd; am hynny Llwyr ymwrthiad yw y sicr feddyginiaeth. Mewn amser fel y presenol pan y mae pob ymdrechion yn cael eu gwneyd gan y sefydliad Dirwestol, er dileu y bai brigog hwn o'r tir, mae pob un a ddefnyddio Ddiodydd Meddwol, yn gosod ei wyneb yn erbyn y mudiad clodfawr hwn, ac hefyd yn erbyn Dynoliaeth yn gyffredinol! Ac nid yn unig yn rhoddi esiampl i'w blant, a'i wasanaethwyr, ac y bydd yn edifar ryw ddydd ganddo am dano; ond y mae yn ceisio attal ffrwd lleshad dynolryw, mae yn ymwadu a Baner diwygiad y gymdeithas fawr ddynol, ac yn ymresu yn myddin gelyn y byd, a'i gorph a'i enaid yntau ei hun!

YN OLAF, ANGHEFNOGI GWERTHIAD DIODYDD MEDDWOL.

Wedi y sylwadau blaenorol, mae yn dyfod i mewn yn naturiol, na ddylem gefnogi gwerthiant diodydd meddwol! Oblegid y peth mae lles y wladwriaeth yn ofyn am wrthod, nid oes gan neb hawl foesol, i'w gynnyg, na'i werthu; ac mae yn amlwg fod y drygedd o feddwdod yn lledaenu, trwy fod cymmaint cyfieustra i gael y diodydd yn mhob man; a thrwy fod y niwed o honynt mor amlwg i'r llywodraethwyr, mae yn ddyledswydd arbennig arnynt, i osod attal i'w gwerthiad. Ond amlwg yw nad ydyw gwir gysur y myrddiynau ar eu meddyliau; am hyny mae yn ofynol i'r rhai a ewyllysiant weled gwell llywodraeth, ymdrechu ennill y mwyrif at Lwyr-ymattaliad, a thrwy bwys a thaerineb eu Deisebau, eu gwthio o'r diwedd i'r hyn nad ewyllsiant, sef cauad i fynu Feithrinfeydd Anghymedrolder. Arfera llawer ef dan yr ystyriaeth o'i ddiniweidrwydd, efallai, ond nid yw unionder nac anunionder, yn ymddibynu ar ewyllys, na barn dynolryw, ac nid yw hir arferiad, yn cyfiawnhau y weithred yn neb; oblegid mae y drwg, neu y cyfeiliornad milflwydd, yn gymmaint drwg yn awr neu gyfeiliornad y funud hon, ag ydoedd yn ei darddiad cyntaf.

Gwirionedd! Gwirionedd; yw gobaith y byd,—llefarer hwn yn araf, a heddychlon, ond gyda nerth anorchfygol, a sigla i'w sylfeini holl noddfeydd anwiredd. Henffych i'r diwrnod!

Gwedi ymdreulio yn faith iawn gyda'r ddosran hon, am yr ystyriwyf y Bai hwn, yn un o ddrygau pennaf yr oes, ac am fod cydiad rhwng fy nhestun, a'r sefydliad daionus er ei attal, âf yn awr at ddosran addawedig nesaf, sef ANNIWEIRDEB.

Diau fod yr Anfoesoldeb hwn, yn frigog iawn yn mhlith y Cymry, etto nid i'r graddau y mae mewn rhai gwledydd, ac efallai ar y cwbl yn Lloegr, mewn rhai

Siroedd. Ond i'r dyben i gael golygfa fer ar ein cyflwr, rhoddaf yma Daflen helaeth o amryw wledydd yn Ewrop.

NIFER O BLANT ORDDERCH, MEWN POB CANT O ENEDIGAETHAU.

Sardinia	2	Lloegr	6.7	Denmark	9.3
Sweden	6.5	Cymru	6.8	Hanover	9.8
Norway	6.6	Ffrainge	7.1	Awstria	11.3
Belgium	6.7	Rwssia	7.1	Sacsony	14.9

Ymddengys oddiwrth y Daflen uchod fod Cymru yn waeth na Lloegr ar y pen hwn, ond dengys cyfrifiad Parch. E, Jones fod 19 yn mhob 100,000 o fenywod, o blant ordderch yn Lloegr yn fwy na Chymru. Ymddengys y cyfrifiad olaf, yn ffafr Cymru, yn anad Lloegr, ond nad yw bod gwledydd eraill yn fwy yn symud yr anwiredd yn y gradd lleiaf, nac yn dileu yr anfoesoldeb. Llawer allem grybwyll o achosion a arweinia i anhrefn mawr ar y pen hwn, ond gan na chaniatta fy nherfynau, ni chaf ond cynnyg rhai diwygiadau, a fyddai yn foddion effeithiol i attal rhwysg yn cenllif hwn, sef:—

Yn 1af. Llwyr-ymattaliad y rhyw Fenywaidd oddiwrth ddiodydd meddwol, yr hyn sydd fai gwarthus yn ardaloedd y Gweithfeydd ac yn y Trefydd gan mwyaf.

Yn 2il. Cadwraeth amser priodol i gyfeillachu, ac yn neillduol Llwyr ddilead o'r drefn isel ac anweddaidd, sydd mewn rhai Siroedd o gyfeillachu yn y gwelyau. Gesyd hyn warth ar ein cymeriad fel cenedl, er nad arferir hyny yn gyffredinol. Ymosoded pob Pen teulu atto mewn difri, a cheir terfyn o hyn ar frys.

Yn 3ydd. Llwyr ymwrthodiad a chyfarfodydd nosawl pellenig, ac yn neillduol y Cwrwau cymmorth, pa rai sydd wedi bod yn fagl i laweroedd. Gwisgadau anweddaidd, a pethau o'r cyffelyb, ydynt ddiraddiad i'r rhyw fenywaidd, a chydgynnulliad yr rhywiau a'u hymgymysgiad, mewn llawer o amaethdai, sydd anweddaidd iawn, ac yn sicr o dueddu at lwybrau anniwair. Dylai yr areithfeydd, a dysgyblaeth Eglwysig, ynghyd a'n misolion, ymosod yn fwy difrifol ar y llygredd ofnadwy hwn, sydd yn gwarthruddo y Dywysogaeth.

Anfoneddigeiddrwydd. Er nad ydyw hyn yn dyfod dan ein sylw yn yr un golygiad a'r modd blaenorol y buom yn ymdrin ag ef, etto, meddyliwyf fod pob diffyg *Moes* yn radd o anfoesoldeb; a gresyn ydyw meddwl fod llawer o'r radd ganol a'r iselradd, wedi llettya y meddwl, nad oes angen am hyn ar eu graddau hwy! Ond mae hyn yn gamsynied erchyll, a dylid yn mhob modd amcanu eu hadferyd o hono. Pell ydwyf o feddwl fod Moesau, neu ymddygiad da, yn galw am gymaint o'r ystumiau, a'r plygu a welir gan y pendefigion; ac nid oes dim a ddylai fod yn fwy atgas gan bob doethwr, na gormod gyfarchiadau diles, a gwenau ofer, yr ymostyngiad boneddigeiddiaf ydyw yr hwn sydd yn dyfod yn naturiol, ac fel yn ddigwyddiadol, heb ddim trydar a thrafferth gydag ef; peth trwy addysg dda wedi dyfod fel ail nattur ynom. Nid yw y dyn boneddigaidd, pan byddo arall yn siarad ag ef, yn mwmian canu, taro allan i ryw ymadrodd dieithr i'r peth fo dan sylw, neu yn gwenu yn watworllyd a diystyr, ond rhodda glust-ymwrandawiad i'r cwbl, er efallai o nemawr pwys iddo ef, ond yn unig fel cadwyn cyfeillach. Mae rhyw beth fel hyn yn para yn ei flas, fel y bara a fwyttewn yn gyssefin, tra mae gormodd trydar, fel teisenod melus, yn ein diflasu; neu ormod diethrwch yn ein suro trwyddom. Dywedir yn aml mai dyna y dyn goreu, yw yr hwn a ddyweda ei feddwl yn agored, heb gelu dim; ond nis gall hyn fod yn gywir, oblegid mae yr hen Ddiareb yn sefyll yn ddisigl, sef "Llawer gwir, goreu gelu." Mae deall wedi ei roddi ar orsedd yr enaid, i farnu pa beth i ddweyd, neu gelu, a dylai gyflawni ei swydd. Ceir llawer yn ymddwyn yn anfoesgar iawn wrth y bwrdd mewn gymdeithas, ar yr heolydd, ac

yn mhob man braidd; a thrwy hyn yn gwarthruddo y genedl yn gyfan gwbl; ac er cael diwygiad cynnygâf ychydig o lwybrau mewn modd byr iawn, pa rai debygaf a wnaent les mawr, sef yn 1af. Addysg lytherenol dda, fel y gallont ddarllen hanes dynion o foesau da. Yn 2il. Rhagor yn y Gymraeg, yn ymdrin a'r pethau gwir anghenrheidiol, er ymddwyn yn weddaidd yn mhob sefyllfa. Yn 3ydd. Er dwyn i fynu yn rheolaidd y genedl ieuainge, ac nad ydyw amgylchiadau eu rhieni yn caniattau Addysg mewn Ysgolion iddynt; doder hwy mewn gwasanacth, yn y lleoedd tebycaf i weinyddu yr addysg hon iddynt; ac yn y Gweithfeydd, traddoder Darlithiau, yn fynych ar y rhanau mwyaf buddiol o'r pwnge hwn; ffurfier Cymdeithasau er ymdrin a hyn; a bydded gwiliadwraeth neillduol, a chyngorion dwys, yn y mannau lle yr ymgynnulla plant, ac ieuengctid, i ryw wleddoedd bychain, ac yn mhob man y cynniga cyfleustra at hyny, mewn modd prydferth, a mwyaf anhebygol o greu tramgwydd. Buasai yn dda gennyf fanylu rhagor ar y pen hwn, ond barnwyf fod fy nhraethawd wedi chwyddo yn ormodol: am hyny terfynaf gyda dymuniad taer, am osodiad yr holl bethau a nodais mewn gweithrediad buan.

CYMRO Ô WLAD EI DADAU.

DUWDOD CRIST.

LLYTHYR III.

MR. YMOFYNYDD,—Pan ysgrifenais fy llythyr diweddaf, nid oeddwn yn gwybod dim fod *Clemens* a *D.* wedi anfon attoch yn barod eu sylwadau hwynt ar 1 Ioan v. 20; onide buaswn yn gohirio fy sylwadau fy hun hyd gyfleusdra arall. Yr wyf yn awr yn dychwelyd at fy nghynllun dechreuol, gan obeithio na fydd raid i mi ei adael etto, cyn gorphen fy llythyrau ar y pwnge pwysig sydd yn awr, ac i fod am amser, dan fy sylw.

Y prawf nesaf i ddygir i ddangos fod yr enw Jehovah yn cael ei briodoli i Iesu Grist yw Gen. xix. 24 Yr Arglwydd (Jehovah) a wlawliodd ar Sodom a Gomorrah frwmstan a thân oddiwrth yr Arglwydd (Jehovah) allan o'r nefoedd.

Dywed Richard Watson fel hyn ar y geiriau hyn: "Y mae gennym yma Jehovah gweledig, yr hwn oedd wedi siarad ag Abram, yn gwlawio ei lid oddiwrth Jehovah arall, a'r hwn, gan hynny oedd yn anweledig. Felly y mae gynnym ddau Jehovah yn cael eu mynegi yn bendant."

Adnod arall a ddygir ymlaen i'r un pwrpas yw, Hosea i, 7. Ac etto, mi (Jehovah) a drugarhaf wrth dy Judah, ac a'u cadwaf hwynt trwy'r Arglwydd (Jehovah) eu Duw.

Ar hon dywed Geo. Holden fel yma: "Nis gall y Jehovah, trwy yr hwn y mae'r Jehovah yn ein cadw ni, fod yn neb arall ond ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist."

Mae y rhan amlaf o'r trindodiaid o'r farn mai Iesu Grist oedd Jehovah neu angel y cyfamod, a ymddangosodd dan yr hen oruchwiliaeth fel cyfrwng y datguddiedigaethau a wnaed i Moses, Lot, Abram, ac eraill; ond nid ydyw ond tyb wedi'r cyfan; a thyb ydyw ag sydd yn croesi geiriau Paul yn bendant, yr hwn a ddywed yn ei lythyr at yr Hebreaid i. 1. "DUW wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf *hyn* a lefarodd wrthym ni yn ei Fab." Mae'n amlwg fod Paul o'r farn nad oedd Duw ddim wedi llefaru trwy ei Fab cyn y dyddiau diweddaf hyn. Duw oedd yn llefaru gynt dan yr hen oruchwiliaeth trwy y prophwydi; yr un Duw oedd yn llefaru hefyd dan yr oruchwiliaeth newydd trwy ei Fab. Trwy y prophwydi yr oedd yn llefaru gynt ac nid trwy ei Fab, trwy ei Fab yn awr ac nid trwy y prophwydi bellach.

Fod Duw yn defnyddio cenhadon dan yr hen oruchwiliaeth i fynegi ei ewyllys i'w bobl sydd amlwg, a gelwid y cenhadon hynny ar enw'r Arglwydd; ond nid teg casglu mai'r Arglwydd oeddent serch hynny. Canad beth sydd i'w ddeall wrth

fod y gair Jehovah yn cael ei arfer ddwy waith, amlwg yw nad oes ond un Jehovah: Nehem. ix. 6, 7, &c. "Ti yn unig wyt Arglwydd (Jehovah) ti a wnaethost y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll sydd arni, y moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt; a thi sydd yn eu cynnal hwynt oll; a llu'r nefoedd sydd yn ymgrymmu iti. Ti yw'r Arglwydd Dduw, yr hwn a ddetholaist Abram ac a'i dygaist ef allan o Ur y Caldeaid, ac a roddaist iddo enw Abraham." Felly hefyd yr ydym yn cael yn yr un bennod mai efe, ac nid neb arall, ddarfu wneuthur cyfammod ag Abraham, i roddi iddo ef, a'i had ar ei ol, wlad y Canaaneaid, yr Hefiaid, yr Amoriaid, a'r Pheresiaid, a'r Jebusiaid, a'r Girgasiaid: mai efe, ac nid neb arall, ddarfu wneuthur rhyfeddodau yn yr Aifft, hollti'r mor o flaen ei bobl, eu harwain hwynt liw dydd mewn colofn cwmmwl, a lliw nos mewn colofn dan; mai efe ddarfu ddisgyn ar fynydd Sinai ac nid ei Fab, fel y tybia rhai; mai efe ymddiddanodd a hwynt o'r nefoedd, ac a roddodd farnedigaethau uniawn, cyfreithiau gwir, a deddfau daionus iddynt: mai efe roddodd iddynt fara o'r nefoedd a dwfr o'r graig, ac a ddywedodd wrthynt y caent etifeddu'r wlad a dyngodd ar ei rhoddi iddynt: ac er mynych-wrthgiliad ei blant na ddarfu iddo eu hanghofio, eithr rhoddodd iddynt ei yspryd daionus i'w dysgu, ac a'u porthodd ddeugain mlynedd yn yr anialwch. Felly hefyd yw iaith y Testament Newydd Act. iii. 13. "Duw Abraham ac Isaac a Jacob, Duw ein tadau ni, a ogoneddodd ei Fab Iesu, yr hwn a draddodasoeb chwi." Nid oes ond un Jehovah, un Crewr a chynnaliwr, dim rhagor; efe sydd Dduw ac nid neb arall.

Yn nesaf yr wyf yn sylwi fod enwi'r person ddwywaith, yn lle arfer yr enw a'r rhagenw fel y gwnawn ni, yn ddull cyffredin iawn gan yr Hebreaid: er hynny nid oeddent yn meddwl gosod allan ragor nag un person. Y mae amrywiol enghraifftiau o hyn i'w cael yn yr Hen Destament; gwnaiff ychydig o honynt y tro i egluro fy meddwl. Gen. xvii. 23. "Ac Abram a gymerodd Ismaei ei fab —— a phob gwrryw o ddynion ty Abram," yn lle dywedyd fel y gwnaem ni, a phob gwrryw o ddynion ei dy ef. Gen. ii. 20, Y mae Adda yn cael ei enwi ddwywaith, yn lle arfer y rhagenw: Gen. iv. 22. Y mae Lamech yr un modd: Gen. xvi. 16. "Ac Abram oedd fab pedwar ugain mlwydd a chwech o fiynyddoedd, pan ymddug Agar Ismael i Abram:" ac yn xviii. 17-19 y mae cyffelyb enghraifft. xxxvii. 23. "A bu pan ddaeth Joseph at ei frodyr, iddynt ddiosg ei siacced oddiam Joseph," yn lle oddiam dano ef: Exod. xxxiv. 34, 35, "A meibion Israel a welsant wyneb Moses, fod croen wyneb Moses yn disgleirio," yn lle, croen ei wyneb ef yn disgleirio: Josuah ix. 21. Y mae'r gair tywysogion yn cael ei arfer ddwywaith. Yn 1 Bren. xii. 21. Y mae Rehoboam yn cael ei enwi ddwywaith; ac yn Luc iii. 19, y mae Herod yn cael ei arfer felly. Gallaswn grybwyll amrywiol o fanau eraill, lle y mae yr un dull i'w gael. Yn awr, a ydyw yn briodol casglu fod Abram yn ddau berson, Lamech yn ddau berson, Joseph yn ddau berson, a Moses yn ddau berson, oherwydd fod yr enw yn cael ei arfer ddwywaith yn y lleoedd uchod, yn lle yr enw a'r rhagenw? A oedd Solomon yn ddau frenhin serch fod ei enw ef ddwywaith yn 1 Bren. x. 13. "A'r brenhin Solomon a roddodd i frenhines Seba ei holl ddymuniad, yr hyn a ofynodd hi, heblaw yr hyn a roddodd Solomon iddi hi o'i frenhinol haelioni. Na na, nid oes neb mor fyrbwyll a thynu'r fath gasgliad, a dylent bwyllo peth cyn gwneuthur felly a'r gair Jehovah. Nid oes, gan hynny, un sail yn y byd i'r haeriad fod yr enw Jehovah yn cael ei briodoli i'r Iesu, yn yr adnodau uchod; ac hyd yn oed pe caniatteid gyda Watson fod dau Jehovah yn cael eu mynegi yn amlwg yn yr adnodau crybwylledig, nid oes un gair i ddangos mai'r Iesu yw un o honynt. Mae'n wir fod Geo. Holden yn haeru hynny; ond beth yw ei brawf? Dim, dim yn y byd. Fallai mai Cain oedd!! Pwy wyr?

Mae Boothroyd, Geddes, Calvin, Grotius ac eraill yn cyfiaethu'r geiriau fel hyn: "Yr Arglwydd ei hun a wlawiodd ar Sodom a Gomorrah frwmstan a thân allan o'r nefoedd.—Ac etto myfi fy hun a drugarhaf wrth dy Judah, &c.

Dywed Calvin fel hyn: "Mae'r ail adroddiad yn bwysig. Oddiwrth y dystiolaeth hyn darfu i'r hynafiaid ymdrechu profi duwdod Crist, ond nid yw'r ymresym-

iad mewn un modd yn gadarn." Felly y dywedodd Calvin, ac am unwaith etto yr wyf yn cyttuno ag ef.

Yr adnod nesaf a ddygir ymlaen i brofi fod yr enw Jehovah yn perthyn i Grist yw Jer. xxiii. 5, 6. "Wele'r dyddiau'n yn dyfod medd yr Arglwydd (Jehovah), y cyfodaf i Ddafydd Flagurun cyfiawn, a brenhin a deyrnasa ac a lwydda, ac a wna farn a chyfiawnder ar y ddaear; yn ei ddyddiau ef yr achuber Judah, ac Israel a breswylia'n ddiogel, a hyn fydd ei enw ar yr hwn y gelwir ef, yr Arglwydd (Jehovah) ein cyfiawnder.

Yr Arglwydd yw ein cyfiawnder. Yates a Nayes.

A hyn fydd yr enw ar yr hwn y geilw Jehovah ef—Ein cyfiawnder. Blayney.

Wrth ddarllen y bennod y mae'n ymddangos yn lled debygol mai at y brenhin Zarobabel a rhyddhad yr Iuddewon a gaethiwed Babilon y mae'r prophwyd yn cyfeirio. 7fed a'r 8fed adn. "Eithr byw yw'r Arglwydd yr hwn a ddug i fynu, ac a dywysodd had ty Israel o dir y gogledd, ac o bob gwlad lle y gyrraswn i hwynt, a hwy a gânt aros yn eu gwlad eu hun. Nid yw'r geiriau hyn ddim yn atteb i'r amser yr ymddangosodd ein Harglwydd Iesu Grist; yr oedd yr Iuddewon dan lywodraeth Rhufain yr amser hwnnw. Mat. xvii, 24, 25. "Onid yw eich athraw chwi yn talu teyrnged? Ac yntau a ddywedodd, ydyw." Luc ii. 3. "A phawb a aethant i'w trethu, bob un i'w ddinas ei hun." Felly y mae'n eithaf tebyg, wrth gydmaru'r desgrifiad a rydd y prophwyd â sefyllfa'r byd yn amser Crist, mai nid at yr Iesu mae'n cyfeirio.

Ond yr wyf yn sylwi ymhellach, os ydyw y geiriau dan sylw yn profi duwdod Crist, prawf yr unrhyw ymadrodd fod dynion eraill a lleoedd hefyd yn dduwiau. Jer. 33. 16. "Yn y dyddiau hynny Judah a waredir, a Jerusalem a breswylia'n ddiogel, a hwn yw yr enw y gelwir ef (Heb, y gelwir hi sef Jerusalem) yr Arglwydd ein cyfiawnder." Exod. xvii. 15. "A Moses a adeiladodd allor, ac a alwodd ei henw hi Jehovah Nissi." Yr Arglwydd fy maner. 2 Sam. iii. 4. "A'r pedwerydd Adoniah mab Hazith." Sef, fy Arglwydd Jehovah. 1 Bren. xvii. 1. "Ac Elias (Eliahu) y Thesbiad, un o breswylwyr Gilead." Sef, fy Nuw Jehovah. Ezra x. 25. "Benaiah, Bedaiah." Sef, Mab Jehovah. yr unig Jehovah. Ezec. xlviii. 35. "Ac enw'r ddinas o'r dydd hwnnw allan fydd, yr Arglwydd sydd yno." Jehovah Sammah. Ond nid oes neb yn tybied serch fod enw Jehovah yn cael ei alw ar ddynion a lleoedd, eu bod hwy yn dduwiau. Ac y mae'r achos yn amlwg; dynion oeddent, ac nis gallasent fod yn dduwiau, canad ar ba enwau bynnag y gelwid hwynt. A gadael fod y geiriau yn cyfeirio at y Messiah, nis gallaf weled un anhawsdra i'w deall hwynt fel yn arddangos effaith ei weinidogaeth, ar gymmeriadau dynolryw; sef fod Duw trwyddo ef yn dysgu ei bobl i fyw yn gyfiawn, sanctaidd, a da.

"Yr wyf yn credu fod Iesu yn Jehovah; ond yr wyf yn amau yn fawr p'un a ydyw y testun hwn yn ei alw ef felly. Ni ddylai un athrawiaeth mor sylfaenol bwysig gael ei gosod i orphwys ar ddehongliad mor amhëus ac na chynhalir gan y testun." Dr. Adam Clarke, in Loc.

"Yn llythyrenol, yn ol priod-ddull yr Hebraeg, "A hwn yw ei enw yr hwn a eilw Jehovah, ein cyfiawnder;" ymadrodd hollol yr un peth a, "Jehovah a'i geilw ef felly;" yr hyn sydd yn arwyddo y bydd i Dduw ei wneuthur ef yr hyn y darfu iddo ei alw, sef, "Ein cyfiawnder," neu awdwr a moddion ein hiechydwriaeth a'n derbyniad ... Nid wyf yn amau na fydd i rai dynion dramgwyddo wrthyf am eu hymddifadu hwynt, trwy y cyfiaethad hwn, o reswm hoff i brofi duwdod ein Hiachawdwr o'r Hen Destament. Ond nis gallaf oddiwrtho. Nid gydag un bwriad drwg y gwnaethum ef, ond yn hollol am fy mod yn meddwl, ac yr wyf yn sicr mewn ystyr foesol, na wnaiff y testun, fel y mae'n sefyll, ddim dioddef un ystyr arall yn briodol. Y mae'r lxx. wedi ei gyfiaethu felly o'm blaen i, mewn oes nas gallasai fod un rhagfarn naill ai dros neu yn erbyn yr athrawiaeth rhag-grybwylledig: athrawiaeth sydd yn tynu ei phrofion penderfynol allan o'r Testament Newydd yn unig." Blayney, in loco. Felly ni a adawn y prawf hwn etto yn nwylaw ein brodyr trindodaidd, gan eu bod yn ei drin mor dda, ac awn ymlaen at y nesaf; sef,

Mat. iii. 3, Marc i. 3, Luc iii. 4. 5, Ioan i. 23. Oblegid hwn yw efe, yr hwn y dywedwyd am dano gan Esaias y prophwyd, llef un yn llefain yn y diffaethwch. Parotowch ffordd yr Arglwydd &c. Isa. xl. 3. "Llef un yn llefain yn yr anialwch, parotowch ffordd yr Arglwydd (Jehovah), unionwch lwybr ein Duw ni yn y diffaethwch."

Mat. xi. 10, Marc i. 2, Luc vii. 27. "Canys hwn ydyw efe am yr hwn yr ysgrifenwyd, Wele yr wyf fi yn anfon fy nghenad o flaen dy wyneb, yr hwn a barotoa dy ffordd o'th flaen." Mal. iii. 1. "Wele fi yn anfon fy nghenad, ac efe a arloesa'r ffordd o'm blaen i; ac yn ddisymmwyth y daw'r Arglwydd yr hwn yr ydych yn ei geisio i'w deml, sef angel y cyfammod yr hwn yr ydych yn ei chwenych &c." Ioan iii. 28. "Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, eithr fy mod wedi fy anfon o'i flaen ef."

Ymresymir oddiwrth y geiriau hyn, gan fod Malachi yn dywedyd fod Jehovah yn anfon cennad o'i flaen ei hun, ac fod Ioan yn dywedyd mai o flaen Crist yr oedd ef wedi ei anfon, mai Jehovah oedd Crist. Fod Esaias yn dywedyd am un yn llefain yn y diffaethwch o flaen Jehovah, ac mai Ioan fedyddiwr oedd yr un hynny yn y diffaethwch yn ol tystiolaeth Matthew, Marc, a Luc yn parotoi ffordd Crist, o ganlyniad Jehovah yw Crist.

Yr wyf yn sylwi yn gyntaf fod yr ysgrythyrau yn gosod allan fod Duw yn ymweled a'i bobl, pan nad oes rhagor i'w ddeall na'i fod yn anfon prophwyd iddynt. Luc vii. 16. "Ac ofn a ddaeth ar bawb, a hwy a ogoneddasant Dduw, gan ddywedyd, prophwyd mawr a gyfododd yn ein plith; ac ymwelodd Duw a'i bobl." Nid Duw yn bersonol oedd wedi ymweled a'i bobl, ond rhoddi prophwyd i'w cyfarwyddo a'u dysgu wnaeth; ac eithaf anhegwch fyddai dywedyd mai Duw oedd y prophwyd.

Yr wyf yn sylwi yn nesaf, mai nid ffordd naturiol oedd Ioan yn barotoi; nid torri'r coed yn yr anialwch i wneuthur ffordd rydd i'r Messiah oedd, fel y gwnai *pioneers* o flaen byddin; nage, rhagflaenor o *stamp* arall oedd Ioan. Parotoi'r meddwl oedd ei waith ef. Yn ganlynol nid o flaen person y Messiah y danfonwyd Ioan, ond i wneuthur dynion yn barod i dderbyn ei genadwri, trwy bregethu edifeirwch iddynt. Os felly, nid oes un anhawsdra yn yr ymadrodd, ei fod wedi ei ddanfon o flaen Jehovah ei hun, oblegid Duw oedd awdwr dysgeidiaeth yr Iesu, fel y tystia ef ei hun yn bendant; Ioan xii. 49. "Canys myfi ni lefarais o honof fy hun: ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i efe a roddes orchymyn i mi, beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn." A thrachefn dywed, Ioan xiv. 10. "Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd." Felly gellsid dywedyd gyda'r Iesu "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad." oblegid mai gwirionedd a gweithredoedd Duw oedd ganddo; ac felly hefyd yr oedd Ioan yn parotoi ffordd i'r Jehovah mawr, sef i wirionedd Ior y nef, pan oedd yn parotoi dynion i dderbyu gwirionedd Duw trwy ei genad oreu, ein Harglwydd Iesu Grist. Ond eithaf byrbwylldra fyddai casglu mai'r Jehovah mawr oedd y dyn Crist Iesu serch hynny.

Nid wyf wedi gorphen etto; os yw'r prawf dros mai'r Jehovah oedd Crist oddiwrth yr adnodau uchod yn gadarn, fe brawf ormod; fe brawf fod Moses ac eraill yn dduwiau hefyd. Yn Deut. xi. 14, dywed Moses, "Yna y rhoddaf wlaw i'ch tir yn ei amser, sef y cynnar wlaw a'r diweddar, fel y casglech dy win, dy yd a'th olew." Ond yn Joel ii. 23. yr ydym yn darllen y geiriau hyn, "chwithau plant Seion, gorfoleddwch ac ymlawenhewch yn yr Arglwydd eich Duw, canys *efe* a roddes i chwi y cynnar wlaw yn gymhedrol, ac a wna i'r cynnar wlaw a'r diweddar-wlaw ddisgyn i chwi yn y mis cyntaf." Felly Jehovah yw Moses. Exod. xx. 2. "Myfi yw'r Arglwydd dy Dduw: yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aifft, o dy y caethiwed." Yn y xxxii. 7. o'r un llyfr y darllenwn fel hyn, "A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, cerdda, dos i wared; canys ymlygrodd dy bobl a ddygaist i fynu o dir yr Aifft." Pwy ddygodd Israel o wlad yr Aifft? Yr Arglwydd, Jehovah ei hun. Pwy ddygodd Israel o dir yr Aifft? Moses, medd Duw ei hun, ac y maent yn cael eu galw yn bobl Moses hefyd; mae'r casglaid yn anocheladwy ar y dull uchod o ymresymu, mai Jehovah oedd Moses. Ac os nid teg y casgliad hwn, nid

teg y llall chwaith. Luc x. 16. "Y neb sydd yn eich gwrando chwi sydd yn fy ngwrando i (medd Crist), a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi, sydd yn fy nirmygu i, a'r neb sydd yn fy nirmygu i, sydd yn dirmygu yr hwn a'm hanfonodd i." Felly dirmygu disgyblion Crist oedd dirmygu Crist, o ganlyniad Crist oedd ei ddisgyblion; ond dirmygu Crist oedd dirmygu Duw, felly Duw oedd ei ddysgyblion. Act. ix. 4. "Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" Pwy oedd Saul yn erlid? Canlynwyr Crist, fel y tystia'r hanes: ond pwy oedd Saul yn erlid? Dywed Crist mai ei erlid ef oedd Saul; o ganlyniad Crist oedd ei ganlynwyr.—1 Cor. viii. 12. "A chan bechu felly yn erbyn y brodyr ... yr ydych chwi yn pechu yn erbyn Crist;", gan hynny, Crist oedd y brodyr. Rhoddaf, yn ol fy arfer feddwl trindodwr neu ddau cyn gadael y rhan hon etto.

"Y ffordd o'm blaen i, fel fy ngwas i barotoi y bobl erbyn dyfodiad fy Mab, yr hwn a weithreda yn fy enw." Dr. Boothroyd.

Y mae Dr. Pocock yn gryfach byth. ond yn rhy faith i'w grybwyll. Yr adnodau nesaf ydynt Zech. ii. 8-11. "Canys fel hyn y dywed *Arglwydd* y lluoedd; ar ol y gogoniant y'm hanfonodd at y cenhedloedd y rhai a'ch yspeiliasant chwi: canys a gyffyrddo a chwi, sydd yn cyffwrdd a chanwyll ei lygad ef. Canys wele fi yn ysgwyd fy llaw arnynt, a byddant yn ysglyfaeth i'w gweision: a chant wybod mai *Arglwydd* y lluoedd a'm hanfonodd. Cân a llawenycha, merch Sien: canys wele fi yn dyfod; a mi a drigaf yn dy ganol di, medd yr *Arglwydd*. A'r dydd hwnnw cenhedloedd lawer a ymlynant wrth yr *Arglwydd*, ac a fyddant bobl i mi; a mi a drigaf yn dy ganol di, medd yr *Arglwydd*."

"Y mae yma yn amlwg nodau gwahaniaethol iawn, wrth y rhai y gellir adnabod caracter y Messiah. Y mae'n cael ei alw yr *Arglwydd*, yn cael ei anfon gan *Arglwydd* y lluoedd. Trwy yr hyn y mae enw anghyfranogol y Jehovah yn cael ei gymhwyso i'r Tad ac i'r Mab yr un wedd."—Hawker.

Y mae gwaith Arglwydd y lluoedd yn anfon y person a sonir am dano, yn ddigon i ddangos fod yma wahaniaeth amlwg, ac is-raddolrwydd yn cael ei osod allan. Nid gwaeth beth yw'r enw a roddir iddo. Ac am fod yr enw Jehovah yn anghyfranogol, nid gwir yw; canys y mae wedi ei roddi i llaweroedd o ddynion a lleoedd yn yr Hen Destament. Os y buasai yr Arglwydd yn ymddangos, yn addaw, yn bendithio, yn cynorthwyo, gelwid y dynion i'r rhai, neu'r lleoedd lle y gwnaed felly, ar enw yr Arglwydd trwy gyssylltu'r gair Jehovah a gair arall i ddangos y digwyddiad.

Pe dilynid y dull hwn o brofi pwngc, oblegid ymresymu nid yw, gwneid y ffolineb mwyaf o air Duw. Felly, hawdd yw profi fod Moses ac eraill yn dduwiau. At yr hyn a roddais yn barod, rhoddaf esiampl neu ddwy etto, er gwneud fy hunan yn agored i'r trosedd mawr, o ail-adrodd. Gwell ail-adrodd na bod eraill yn anghofio. Deut. xxix. 2-6. "A Moses a ddywedodd wrthynt.....Arweiniais chwi hefyd yn yr anialwch ddeugain mlynedd, ni heneiddiodd eich dillad am danoch, ac ni heneiddiodd dy esgyd am dy droed. Bara ni fwyttasach, a gwin nen ddiod gadarn nid yfasoch: fel y gwybyddech mai myfi yw yr *Arglwydd* (Jehovah) eich Duw chwi." Felly yn ol rhediad y geiriau y mae'n rhaid addef fod Moses yn Dduw, mai efe oedd y Jehovah. —Felly etto, gwna yr un dull brofi mai'r Jehovah oedd y prophwyd Jeremiah. ix. 1-3. "O na bai fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o ddagrau fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl! O na byddai i mi yn yr anialwch letty fforddolion, fel y gadawn fy mhobl, ac yr elwn oddiwrthynt! Canys hwynt oll ydynt odinebus, a chymmanfa anffyddloniaid. A hwy a annelasant eu tafod fel eu bwa i gelwydd; ac nid at wirionedd yr ymgryfhasant ar y ddaear: canys aethant o ddrwg i ddrwg, ac nid adnabuant fi medd yr *Arglwydd*." Y mae'n amlwg mai'r prophwyd sydd yn llefaru yma, ac mor amlwg a hynny mai'r Arglwydd sydd yn llefaru, gan hynny, yr Arglwydd oedd y prophwyd. Y mae enw'r prophwyd hefyd yn gymorth mawr i ganfod ei dduwdod ef; sef, Jeremiah, hynny yw, "Goddiowgrwydd yr Arglwydd," medd yr hen Beter Williams yn ei Fynegair Ysgrythyrol, ac nid oes achos cael mwy o Galfin 'does bossibl. Ond er gwaetha'r cyfan, y mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod mor gyndyn neu glwppanaidd, fel na chredaf yn un modd mai'r Jehovah mawr oedd ei prophwyd Jeremiah.

Ychydig addefiadau'r trindodiaid, a thyna fi yn gadael y rhan hyn o'r prawf etto.

"Y mae'r geiriau hyn i'w deall fel wedi eu llefaru gan y prophwyd ei hun." Wm. Lowth. (felly Benson hefyd).

"Y mae'n rhaid deall yr iaith hon am y prophwyd ei hun, oni chyfeirir hi i'r Messiah." Calvin's Bible.

"Yr oedd Michael, llywodraethwr Judea, wedi derbyn commissiwn gan Dduw i gospi yn llym y cenhedlaethau cymmydogaethol, y rhai oeddent yn clyniaethol i'r Iuddewon." Grotius.

"Geiriau yr angel neu'r cenhad dwyfol yw y rhain, a grybwyllir yn pen. i. 9, 12, 14, 19; ii. 3, ondy mae'n deilwng o sylw, fod iaith Jehovah ei hun, ac eiddo ei weinidog ef, yr hwn sydd yn gweinyddu ei orchymynion, yn cael eu cymmysgu ynghyd yn yr adnodau hyn." E. F. C. Rosenmuller.

"Nid oes dim hyd yn hyn wedi ymddangos i osod allan fod yr angel yn rhagor na'r hyn y mae'r enw yn arwyddo yn gyffredin, cenhad cyffredin ewyllys Duw, a goruchwiliwr ei ragluniaeth. Ac nid ymddengys yn wahanol oddiwrth yr hyn a ganlyn yn y ddwy adnod hyn, os gwnawn dalu sylw i'r gwahaniaeth priodol rhwng yr hyn y mae'r angel yn lefaru yn ei berson ei hun, a'r hyn y mae'n draddodi fel geiriau uniongyrchol Duw."—Dr. Blayney [Wedi rhoddi ei resymau yn llawn dros egluro'r testun fel wedi ei lefaru mewn rhan gan Jehovah, ac mewn rhan gan yr angel, y mae'r ysgrifenydd dysgedig yn myned rhagddo fel hyn] "Yr wyf yn awr yn barod i appelio at argyhoeddiad pob darllenydd pwyllog a di-ragfarn, p'un a ydyw'r eglurhad a roddais yn ol ystyr amlwg a llythrenol y geiriau; a ph'un a ydyw'r eglurhad ddim yu fwy esmwyth a naturiol na'r un y sefir drosto i'r gwrthwyneb iddo. Yn wir, y mae rheswm da dros gredu na ddarfu i un ran o ddatguddiad yr Hen Destament gael ei thraddodi trwy weinidogaeth uniongyrchol Mab Duw: o herwydd fod hynny yn cael ei osod allan fel nodweddiad wahaniaethol yr oruchwiliaeth efengylaidd, Heb. i. 1, 2."—Dr. Blayney: Appendix to trans. of Zech.

Yr adnodau nesaf, a'r olaf hefyd dan y prawf hwn, a ddaw dan ein sylw ydynt.

Ioan xii. 41. "Y pethau hyn a ddywedodd Esaias pan welodd ei ogoniant ef, ac y llefarodd am dano."

Isa. vi. 1. "Yn y flwyddyn y bu farw y brenhin Uzziah, y gwelodd hefyd yr Arglwydd (Jehovah) yn eistedd ar orseddfa uchel a dyrchafedig, a'i odre yn llenwi'r deml.

Dywed Ho den fel hyn ar y geiriau: "Y gogoniant a welodd y prophwyd oedd gogoniant y Jehovah, yr hwn medd St. Ioan oedd Iesu Grist. Mae ein Hiachawdwr, o ganlyniad, yn y gyfran hon, yn cael ei alw yn Jehovah y lluoedd." Scrip. Testim.

Wrth ddarllen y chwechfed bennod o Esaia gwel y darllenydd diduedd, nad oes un cyfeiriad, yn y mesur lleiaf, at y Messiah yno: ac y mae gwaith yr efangylwr yn cyfeirio attynt yn dangos yn eglur, ei fod ef a'i gyfeillion yn difynu yn gymmwysiadol yn fynych iawn, heb feddwl cyflwyno'r cyfan at yr hyn fyddo mewn llaw ganddynt.—Gellir sylwi ymhellach mai rhagweled sydd i ni ddeall wrth fod y prophwyd yn gweled yr Arglwydd yn eistedd ar orseddfa uchel; ac felly nid oes yma un sail i'r dyb fod y Messiah yn bodoli y pryd hwnw: y mae'r gair yn cael ei arfer yn aml yn yr ystyr hyn yn yr ysgrythyrau. Ioan viii. 56, "Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i:" hynny yw, ragweled fy nydd i. Heb. xi. 13, "Mewn ffydd y bu y rhai hyn farw oll, heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt:" hynny yw, eu rhagweled hwynt.

Yn nesaf, fel y sylwais eisioes, gogoniant Duw ei Dad oedd gogoniant Crist. Nid person y Messiah sydd ini ddeall, eithr ei wirionedd a'i wyrthiau; nid i ddwyn tystiolaeth i'w berson y darfu i'r Iesu gael ei anfon gan Dduw, ond i dystiolaethu i'r gwirionedd. Gwirionedd Duw oedd ganddo, a Duw oedd yn gwneuthur gwyrthiau trwyddo. Hyn, ynghyd a chyfraniad yr Ysbryd i'w ddigyblion, i'w galluogi hwythau i wneuthur gwyrthiau, oedd gogoniant y Messiah. Ioan ii. 11. "Hyn o

ddechreu gwyrthiau a wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea, ac a eglurodd ei ogoniant." Y gwyrthiau mewn modd neillduol oedd ei ogoniant, ac am y rhain dywed ef ei hun, mai'r Tad, yr hwn oedd yn aros ynddo oedd yn eu cyflawni. Felly gogoniant ei Dad oedd gan yr Iesu; ac yng ngogoniant ei Dad, ac nid ei ogoniant ei hun, y daw etto yr ail waith. Mat. xvi. 27. "Canys Mab y dyn a ddaw yng ngogoniant ei *Dad*, gyda'i angylion. A phan y mae'r Iesu, yn ei weddi olaf gyda'i ddisgyblion, yn gweddio am gael ei ogoneddu a'r gogoniant oedd iddo gyda'r Tad cyn bod y byd; gweddio y mae ar î Dduw gyflawni ei addewidion i sefydlu'r gwirionedd yn y byd, trwy alluogi ei ddisgyblion i wneuthur gwyrthiau a rhyfeddodau drosto.

Yn lle y geiriau, "pan welodd ei ogoniant ef, y mae rhai 'llawysgrifau yn ddarllen," pan welodd ogoniant Duw; neu pan welodd ogoniant ei Dduw—Sylwer hefyd, nad yw'r prophwyd ddim yn dywedyd mai gweled gogoniant Duw wnaeth, ond gweled Jehovah ei hun yn eistedd ar orsedd uchel.

Yn ol y dull trindodaidd o ymresymu, dangosais yn barod, fod Moses yn Dduw, Zechariah yn Jehovah, mai Crist yw ei ddisgyblion, ac mai'r Tad ydynt hefyd, ac yn ganlynol, mai'r Jehovah ydynt. Gellid dangos hefyd ar y tir hwn, mai dyn ddarfu Esaias weled pan welodd ogoniant Duw, oherwydd gelwir dyn yn ogoniant Duw, ac felly dyna'r *argument* ar ben. 1 Cor. xi. 7. "Canys gwr yn wir ni ddylai wisgo am ei ben, am ei fod yn ddelw a gogoniant Duw."

Ychydig addefiadau y trindodiaid ac yna i ddarfod.

"Y pethau hyn a ddywedodd Esaias, pan, trwy yspryd prophwydoliaeth, y gwelodd ei ogoniant ef, h. y. y rhagwelodd ymddangosiad gogoneddus Crist ar y ddaear gyda golwg ar ardderchawgrwydd ei athrawiaeth a mawredd ei wyrthiau, ac y llefarodd am dano, h.y. a brophwydodd am Grist."—Wells. Lled debyg hefyd yw sylwadau Grotius, Baxter, a Hammond.

"*Autou*, ef, a berthyn i Dduw.....Y mae Morus yn sylwi yn gall, nad oedd Isaia yn pen. vi. ddim yn siarad am fawredd dyfodol teyrnas y Messiah."—J. G. Rosenmuller.

"Y mae dwy lawysgrif, ac ychydig gyfieithiadau, yn darllen *Theou* a *tou theou autou*, gogoniant Duw, neu ei Dduw." Dr. Adam Clarke. Y mae Le Clerc hefyd o'r un farn, ac yn ychwanegu, y gellir drwgdybio'r darlleniad cyffredin fel twyll adysgrifenwyr duwiol.

Oddiwrth y cyfan, y mae'n ymddangos i mi nad oes un prawf safadwy fod yr Iesu yn cael ei alw yn Jehovah mewn un rhan o'r Bibl. A phe byddai yn cael ei alw felly, ni wnai hynny ddim profi mai'r Jehovah mawr oedd y baban gwan a aned yn Judea, a feithrinwyd ar liniau Mair, a gerddodd oddiamgylch, gan fod yn ddarostyngedig i holl anghenion y nattur ddynol, a wisgodd y goron ddrain, a wadwyd gan Petr, a adawyd gan ei ddisgyblion, a boerwyd yn ei wyneb, a ddioddefodd dan Pontius Pilat, a gladdwyd ym medd Joseph o Arimathea, a gyfodwyd gan Dduw y trydydd dydd, ac a wnaethpwyd yn Arglwydd ac yn Grist er gogoniant Duw Dad. Na amhossibl i mi gredu mai'r Jehovah oedd ef, yn enwedig pan y caf ar ddeall, fod dinasoedd, a dynion, a lleoedd, yn cael eu galw ar enw Jehovah. Ond nid wyf yn credu fod yr Iesu yn cael ei alw felly gymaint ag unwaith.

Ydwyf, Mr. Ymofynydd, yr eiddoch yn garedig, O. EVANS.

A'i amhossibl cyffroi Clemens. D. neu rai o'r gweinidogion ieuainge yn ein plith, i esgrifenu ar dduwdod yr Yspryd Glân? Da chwi, gyfeillion, peidiwch a bod yn fusgrell. E.

EGLWYS LOEGR.

LLYTHYR V,

Y TAIR CREDO, A'U CYDWRTHWEDIADAU.

Yn amser Grist a'r Apostolion nid oedd *Credo* ysgrifenedig i'w chael, yn cynwys rhyw nifer o ddirgeledigaethau athrawiaethol, ar grediniaeth wirioneddol neu ffugiol o ba rai yr oedd derbyniad dyn i mewn i gorlan yr Efengyl yn ymddibynu. Gan fod y "newyddion da o lawenydd mawr" yn cael eu pregethu yn benaf i'r tlawd a'r anllythyrenog, buasai nid yn unig yn greulon yn yr Iesu, ond yn hollol groes i'w gyd-ddygiad gwastadol â gwendidau a ffaeleddau dynion, i erchi eu crediniaeth o ryw ddirgelion amryblyg, tywyll a chroes i'w gilydd, fel unig sylfaen eu gwaredigaeth, a'u teilyngdod o wynfydedigrwydd tragywyddol. Nid oedd yr unig athraw mor anrhugarog â hyn, ond i'r gwrthwyneb, dim ond cydnabyddiaeth o'i ddyfodiad oddiwrth Dduw, fod ei eiriau, a'i weithredoedd, a'i genadwri, o awdurdod ac appwyntiad y Tad; dyma'r unig Gyffes Ffydd a geisiai ef fel yn ragarweiniol i gyfranogiad cyflawn o holl ragorfreintiau y Grefydd Gristnogol. Yr unig erthygl ffydd ar yr hon yr oedd Crist yn gosod pwys a welir yn yr ymddiddan a gymerodd le rhyngddo a'r Apostolion cyn ei Weddnewidiad. Gofynodd iddynt pwy oeddent hwy mewn gwirionedd yn dybied ei fod ef? Pedr a'i hattebodd fel yr adroddir yn Matt. xvi. 16. "Ti yw Crist, Mab y Duw byw," ymadrodd yn cael ei arfer yn aml ymhlith yr Iuddewon i arwyddocau y Messia addawedig. Mae Crist nid yn unig yn cael ei foddloni gan gyffes Pedr—mae'n fwy na chael ei foddloni; mae'n llawenhau fod gwirionedd mor bwysig, mor holl-ddigonol, yn cael ei synied gan un o'i ganlynwyr dewisedig. Yn ei lawenydd mae'n dywedyd wrth Pedr mai uchel yw ei fraint ei fod wedi cael gwybodaeth o wirionedd mor werthfawr: "Gwyn dy fyd di, Simon mab Jona: canys nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y Nefoedd. Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon" (sef a gyffes uniawngred hon, y dystiolaeth hon, y gydnabyddiaeth mai efe oedd y Messiah addawedig gan y prophwydi), "yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi."

Ar ol marwolaeth ac adgyfodiad eu Meistr, pan cafodd yr Apostolion eu hanfon allan i'r byd i bregethu'r Efengyl i bob creadur, nid oeddent hwythau chwaith yn gofyn dim oddiwrth eu dysgyblion yn wahanol i broffes Pedr, yr hon fel y gwelwyd eisioes, a gymeradwyodd Crist yn fawr. Mae'r gwirionedd hwn yn rhwym o gael ei addef gan bawb sydd erioed wedi darllen hanes eu gweithredoedd yn bwyllog ac ystyriol. Yn Actau v. 42, darllenir, "A beunydd yn y Deml, ac o dy i dy, ni pheidiasant a dysgu a phregethu Iesu Grist." (sef mai efe oedd y Messia dysgwyliedig). Os hwn oedd y gwirionedd blaenaf a bregethai'r Apostolion i'w cydwladwyr y mae'n canlyn o angenrheidrwydd fod eu cymundeb yn agored i bawb ar eu derbyniad o'r gwirionedd hwn. Nid yn unig hyn oedd arferiad y Deuddeg, ond arferiad Paul hefyd yn uniongyrchol wedi ei droedigaeth. Dywedir yn Actau ix. 20, "Ac yn ebrwydd yn y synagogau efe a bregethodd Grist, mai efe yw Mab Duw," mai efe yw y Messia addawedig. Pe credasai yr Iuddewon yn Damascus y gwirionedd hwn, h.y., pe credasent mai'r Iesu oedd y Messia, ni buasai un gyffes ychwanegol yn cael ei dysgwyl oddiwrthynt. Hefyd yn yr Epistolau gosodir allan mor danbaid â'r haul fod sylwedd Cristnogrwydd yn gynwysedig yn y grediniaeth hon. Fel hyn y dywed yr Apostol Ioan, "Pwy bynnag a gyffeso" (nid yn unig a'i dafod, ond a'i ddeall a'i galon hefyd) "fod Iesu yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw."

Wedi marwolaeth yr olaf o'r deuddeg Apostolion ymddengys i'r Eglwys Gristnogol dros hir amser lynu wrth yr un rheol ymhlegyd hyn yn ol tystiolaeth unfrydol yr holl haneswyr eglwysig. Dr. Waddington, Deon presenol Durham, a

ddywed fel y canlyn yn ei "Hanes yr Eglwys," "Nid oedd y Cristnogion cyntaf yn arfer un gredo ysgrifenedig,.....gweinidogion boreuaf yr Eglwys a gymerent eu crêd allan o'r Ysgrythur ei hunan, a boddlon oeddent i ddysgu'r cyfryw grêd yng ngeiriau'r ysgrythyr. Nid oeddent awyddus i chwilio allan beth nad yw yn eglur ddatguddiedig, ond glynent yn ddewr a ffyddlon wrth yr hyn a wyddent oedd yn wir; gan hyny yr oeddent yn amrywio heb ymraniad, ac yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd mewn cariad." I'r un purpas hefyd mae Mosheim yn ysgrifenu yn ei "Hanes Eglwysig." "Dirfawr yw colled yr Eglwys Gristnogol na buasai'r symlrwydd a'r rhyddid cyntefig medi para i lwyddo yng nghynnulleidfaoedd canlynwyr yr Iesu! Pe buasai pyrth yr Eglwys wedi para yn agored fel cynt, a dwylaw cymdeithias yn cael eu hestyn, i bawb a gyffesai fod Iesu yn Fab Duw, mai efe yw y Messia, yna y mae lle i feddwl y buasai llai o groesddadlu, llai o ysbryd gwenwynllyd sectariaeth, a llai o rwygiad wedi cael ei wneuthur yn 'nheulu'r ffydd.'" Ond fel y mae gwaethaf y modd, buan iawn darfyddodd dyddiau heddwch, purdeb a rhyddid; dachreuwyd ffurfio credoau, ac felly agorwyd y drws i ymraniadau, cenfigenau, erledigaethau a'u holl ganlyniadau torcalonus! Y drwg hwn fel pob drwg arall, oedd fychan yn ei ddechreuad, a braidd yn ddiniwed yn ei natur, ond gyd ag amser cynyddodd i faintioli anferthol, ac fel eppil y tiger, dangosodd dueddiadau creulon a gwaedlyd iawn.

Y Gredo gyntaf, y mae un sôn am dani, a elwir yn gyffredinol, ond yn gamsyniol, Credo'r Apostolion. Dygir hi i mewn yn y gwasanaeth boreol fel rhan o addoliad cyhoeddus yr Eglwys Sefydledig. Er arbed y darllenydd y drafferth o droi i'w Gommon Prayer, y Gredo oll sydd fel y canlyn: "Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog, Creawdwr nef a daear: ac yn Iesu Grist ei un Mab ef, ein Harglwydd ni; yr hwn a gaed trwy yr Ysbryd Glân, a aned o Fair Forwyn, a ddioddefodd dan Pontius Pilatus, a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd, a ddisgynodd i uffern; y trydydd dydd y cyfododd o feirw; a esgynodd i'r nefoedd, ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Dduw Dad Hollgyfoethog; oddi yno y daw i farnu byw a meirw. Credaf yn yr Ysbryd Glan; yr Eglwys Lan Gatholig; Cymmun y Saint; Maddeuant Pechodau; Adgyfodiad y cnawd, A'r bywyd tragywyddol. Amen." Er fod y Gredo uchod yn cael ei phriodoli yn gyffredinol i'r Deuddeg Apostolion, etto nid oes a fynont hwy â hi. Gwelwyd eisioes beth oedd eu credo hwynt, a'i bod yn gynwysedig mewn un erthygl: "Credaf mai'r Iesu yw y Messia," neu yr hyn sydd gyfystyr, "Credaf fod Iesu yn Fab Duw." Nid oedd y Gredo grybwylledig yn y dull ei darllenir uchod, mewn bodoldeb hyd nes oddeutu pedwar cant o flynyddau ar ol Crist; ac nid oedd yn cael ei darllen yn gyhoeddus yn yr Eglwys hyd oddeutu can mlynedd yn ddiweddarach na'r cyfnod hwn. Pan yr ymddangosodd gyntaf yr oedd yn wahanol iawn i'r hyn ydyw yn awr, ac ddim yn cynwys yr un rhifedi o erthyglau. A dweyd y gwir nid un ymenydd a'i myfyriodd, nid un pin a'i hysgrifenodd, ac nid un oes a'i dygodd i'w chyflawn gorffolaeth; ond y mae amrywiol ranau o honi yn gyfansoddiad gwahanol ddynion mawn gwahanol oesau. Y geiriau "A esgynodd i'r nefoedd" a osodwyd i mewn yn yr ail ganrif; "Ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Duw," yn fuan ar ol hyny, "Maddeuant Pechodau" yn y trydydd canrif, "A ddisgynodd i uffern." tua chanol y pedwarydd canrif, a "Chymmun y Saint," mor ddiweddar â dechreu y pumed canrif. Nid yw'r Gredo hon gan hyny o un pwys ac awdurdod yng ngolwg y sawl sydd yn Gristion yn ol rheol y Bibl, ac nid oes raid i'r cyfryw un gredu yr oll, neu ryw ran o honi, ond mor belled ag y mae yn ei thybied yn rhesymol ac ysgrythyrol. Gan nad ydyw ddim amgen na ffrwyth dychymyg dynol, diau fod yr Eglwys Sefydledig yn torri ar draws rhyddid crefyddol trwy wneuthur yr adroddiad o honi mewn addoliad yn orfodol, nid yn unig ar yr Offeiriaid, ond ar y bobl hefyd.

Yr ail Gredo, cynwysedig yn y Common Prayer, ac yn rhan o wasanaeth y Cymmun, a elwir *Credo Nicea* yr hon sydd fel y canlyn: "Credaf yn un Duw, Tad Hollalluog, Creawdwr nef a daear, ac oll weledigion ac anweledigion: ac yn un Arglwydd Iesu Grist, unig genhedledig Fab Duw, cenhedledig gan ei Dad cyn yr holl oesoedd; Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, Gwir Dduw o wir Dduw, cenhedl-

edig, nid gwneuthuredig, yn un hanfod â'r Tad, gan yr hwn y gwnaethpwyd pob peth: yr hwn erom ni ddynion ac er ein hiachawdwriaeth, a ddisgynodd o'r nefoedd, ac a gnawdiwyd trwy'r Ysprydd Glân, o Fair Forwyn, ac a wnaethpwyd yn ddyn, ac a groeshoeliwyd hefyd drosom dan Pontius Pilatus. Efe a ddioddefodd, ac a gladdwyd, a'r trydydd dydd efe a adgyfododd yn ol yr Ysgrythyrau, ac a esgynodd i'r nef, ac y sydd yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad. A thrachefn y daw efe trwy ogoniant i farnu y byw a'r meirw: ac ar ei deyrnas ni bydd trange. A chredaf yn yr Ysprydd Glân, yr Arglwydd a'r Bywiawdwr, yr hwn sydd yn deilliaw o'r Tad a'r Mab; yr hwn ynghyd â'r Tad a'r Mab a gydaddolir ac a gydogoneddir, yr hwn a lefarodd twy'r prophwydi. A chredaf fod un Gatholig ac Apostolig Eglwys; addefaf un Bedydd er maddeuant pechodau; ac edrychaf am adgyfodiad y meirw, a bywyd y byd y sydd ar ddyfod. Amen.! Er gwybod yr achlysur o ffurfiad y Gredo hon, rhaid troi i dudalenau hanesyddiaeth. Yngylch y flwyddyn 312, Alexander, esgob Alexandria, yn yr Aipht, trwy "synied mwy nag sydd ysgrifeuedig," a haerodd fod Crist yn ogyfuwch, ac o'r un hanfod neu sylwedd â'r Tad. Gwrthwynebwyd ef gan Arius, henuriad yn yr un Eglwys, yr hwn a wadai y ddau haeriad uehod. Aeth y ddadl yn fuan yn fwy na llond Eglwys Alexandria, a lledodd cyn pen fawr amser dros holl Grêd. Am yspaid chwech mlynedd bu yn achos o gymaint terfysg ac anghydfod drwy Asia, Africa, ac Ewrop, fel y darfu i Cystenyn Fawr, Ymherawdwr Rhufain, yr hwn oedd yn ddiweddar wedi proffesu ei hun yn Gristion, gyd â dyben gwladwriaethol yn fwy na dim arall yn debygol, wysio cymanfa gyffredinol yn Nice yn y flwyddyn 325, er dyfod i benderfyniad ar y pwnge. Haid o urddasolion eglwysig mwy anheilwng ymhob ystyr ni ddodasant benau ynghyd erioed. Mewn rhifedi, nis gellir yn bosibl dweyd eu bod yn cynrychioli yr Eglwys Gyffredinol, oblegid allan o ddeunaw cant o Esgobion pryd hyny mewn bodoliaeth, dim ond tri chant, neu'r chwecheed rân yu unig, a ddaethant ynghyd yn ol gorchymyn yr Ymherawdwr. Y gynadledd a ddechreuodd gyd â chynenau ac ymrafaelion personol o'r fath ffyrnicaf. a threuliwyd hir amser gan yr Esgobion mewn ysgrifenu ac anfon cyhuddiadau yn erbyn eu gilydd at yr Ymherawdwr. Wrth ddyfod i benderfyniad ar y pwnge, diau, yn ol natur pethau, fod llawer o honynt dan lywodraeth y cymhelliadau mwyaf budr ac anonest. Ofn cael eu galw yn hereticiaid, neu ofn pechu yn erbyn rhyw brelad galluog, ar law yr hwn yr oeddent yn disgwyl cael rhyw deyrchafiad, neu ddymuniad i foddio'r Ymherawdwr, a bod o'r un farn â'r mwyrif allan yn y byd, oedd yn ddiamheuol yn dylanwadu yn fawr ar eu meddyliau. Hefyd yr oedd en syniadau adnabyddus ar byngciau duwinyddol eraill yn anghymwyso hyd yn od flaenoriaid y Gymanfa hon i draddodi barn o werth dim ar y pwnge mewn dadl, oblegid yr oeddent yn golygu y seintiau a'r creiriau mewn bri mawr, yr hyn a arweiniodd yn y diwedd i addoliad gwirioneddol o honynt. Dyna pa fath ddynion fu'n ffurfio Credo Nicea, a chan wybod hyn, ai posibl y gall Protestaniaid, yn enwedig Protestaniaid ymneilluedig ystyried y Gredo hon o bwys blewyn? Pa ham na chae dynion ddynesu at fwrdd yr Arglwydd heb gael eu gorfodi i wrandaw darlleniad y Gredo hon gyd a chymaint o ddifrifoldeb a phe buasai yn rhan o air Duw, yn benod o'r Efengylau, neu'r Epistolau? Onid yw hyn yn perthyn yn agos i "iau'r caethiwed?" Mor anghyson â'i hunan hefyd yw'r Eglwys Sefydledig yn hyn o beth! Yn yr xxi Erthygl dywed am y cynghorau cyffredin "hwy a allant gyfeiliorni, ac weithiau fe ddarfu iddynt gyfeiliorni, a hyny mewn pethau a berthynant i Dduw;" etto mae'n gosod Credo un o'r cynghorau cyffredin hyn, ychydig mewn rhifedi, anonest mewn diben, addefedig gamsyniol mewn materion eraill perthynol i ffydd, ac yn gweithredu dan awdurdod Ymherawdwr galluog, pagan newydd ei ddychwelyd,—mae'n gosod y Gredo hon yn llechres anhepgorion iachawdwriaeth!

Medi 25, 1850. T. T.

Y LLYWODRAETH EGLWYSIG BABAIDD YN LLOEGR.

MAWR y cyffro a'r dwndwr sydd wedi bod yn ystod y mis diweddaf, trwy wlad ac eglwys, ac y sydd etto yn para, o achos y trefniadau a wnaeth y Pab yn ddiweddar, parth appwyntio ac urddo Esgobion, &c. i'r eglwys Babaidd yn Nghymru a Lloegr. Gallesid meddwl, gan gymaint y larwm, fod byddin Babaidd ar gychwyn i ddarostwng Lloegr i'r ffydd Gatholig. Yn lle hyny, dim ond "Llythyr Apostolaidd," a ddanfonwyd yma o Rufain, roddodd achlysur i'r holl gyffro a therfysg anarferol hyn. Er mwyn cof-nodi yr amgylchiad yn ei berthynas â Rhyddid Crefyddol, ac er galluogi darllenwyr yr 'Ymofynydd' i farnu drostynt eu hunain am y peth, ymdrechir yma rhodi cynnwysiad y "Llythyr Apostolaidd." Mae y Llythyr yn rhy faith i ni roddi y cwbl o hono. O'i ddarllen, fe welir fod y Pab a'i gynghorwyr yn llettya rhyw obeithion uchel a ffol dros ben.

CYNNWYSIAD Y LLYTHYR APOSTOLAIDD.

Wedi taflu golwg yn ôl at ddygiad Cristnogaeth i mewn i Loegr, a chennadwri Awstin Fonach dan Gregory Fawr, cyfeiria yr ysgrif at y mawr gûr a gofal sydd wedi bod ar Babau Rhufain dros yr eglwys Gatholig yn Lloegr, oddiar pan ddechreuodd y rhwygiad, fel y dangoswyd trwy esiamplau gan lythyrau apostolaidd Gregory XV. (1623), Urban VII (1625), Innocent XI (1688), y rheolau a osodwyd i lawr er hyfforddiad esgobion Pabaidd yn Lloegr gan Benedict XIV, a'r dosbarthiad eglwysig newydd a drefnwyd gan Gregory XVI yn 1840. Yn cael ei annog gan esiampl ei rag-flaenoriaid, mae y Pab, oddiar pan y daeth i'w swydd, wedi llettya dymuniad i roddi pob help tuag at ddad-blygu a thaenu Pabyddiaeth yn mysg pobl Prydain Fawr: ac yn awr, "wrth gymmeryd golwg gyffredinol ar gyflwr yr eglwys Gatholig yn Lloegr, wrth edrych ar y nifer mawr o babyddion, sydd yn barhâus ar gynnydd, a sylwi fod y rhwystrau o ddydd i ddydd yn cael eu symmud ag oeddent ar ffordd taeniad y grefydd gatholig, barnasom fod yr amser wedi dyfod i ben, pan y dylai y ffurf o lywodraeth eglwysig gael ei gosod i fynu eilwaith yn Lloegr, fel y mae yn bodoli, ac yn cael rhyddid i fodoli, mewn teyrnasoedd eraill, lle nad oes achos neillduol yn gofyn gweinidogaeth Ficceriaid Apostolaidd. Yn ganlynol, yr ydym wedi penderfynu, ac yr ydym trwy hyn yma yn gorchymyn, ail-sefyldlu, yn nheyrnas Lloegr, ac yn unol a chyfreithiau cyffredin yr eglwys, sant-lywodraeth (*hierarchy*) o esgobion yn dwyn eu teitlau oddiwrth eu hesgobaethau eu hunain, pa rai yr ydym yn eu sefydlu yn awdurdodol trwy y llythyr presenol yn yr amrywiol daleithiau apostolaidd." Yna, gan ddechreu gyda thalaith Llundain, y mae yn sefydlu arch-esgobaeth yn Westminster i gynnwys siroedd Middlesex, Essex a Hertford (a Dr. Wiseman yn Arch-esgob). Esgobaeth Southwark, yr hon sydd gynnorthwyol (*suffragan*) i Westminster, a gynnwys siroedd Berks, Southampton, Surrey, Sussex a Kent, ac ynysoedd Wight, Jersey, Guernsey a'r ynysoedd sydd gerllaw iddynt. Yn y gogledd nid oes ond un esgobaeth i fod yr hon a gymmer ei henw oddiwrth dref Hagglestown (?). Yn nesaf y canlyn esgobaeth talaith Caerefrog, i'w sefydlu yn Beverley. Mae dwy esgobaeth i fod yn nhalaith Lancaster; un Liverpool, yn cynnwys ynys Manaw, Londsdale, Amounderness (?) a West Derby; ac un Salford yn cynnwys Blackburn a Leyland. Cymmerir esgobaeth y Mwythig i mewn gyda Chymru, yn cynnwys siroedd Môn, Caernarvon, Dinbych, Callestr, Merioneth, Drefaldwyn, a Caer; ac esgobaeth Câsnewydd ar Wysg, yn cynnwys siroedd Brycheiniog, Morganwg, Caerfyrddin, [Ceredigion] Pemfro, Maesyfed, Mynwy a Henffordd. Y gorllewin a rennir i ddwy esgobaeth; Plymouth yn cynnwys Sir Gaerloyw, Gwlad-yr-haf a swydd Wilts, ac un Clifton yn estyn dros Dyfnaint, Dorset a Chernyw. Yn nhalaith ganol y wlad, bydd esgobaeth Nottingham i gynnwys siroedd Nottingham, Derby, Leicester, Lincoln, a Rutland: ac un Birmingham a gynnwys siroedd Warwick, Stafford, Buckingham a Rhydychain. Y dalaith ddwyreiniol a ffurfia un esgobaith, dan enw Northampton.

"Fel yma," chwanega y Llythyr, "yn nheyrnas tra blodeuog Lloegr bydd un

dalaith eglwysig unigol âg un archesgob a deuddeg esgob cynnorthwyol zêl pa rai, a'u llafur gweinidogaethol, a fydd, gobeithiwn, trwy râs Duw, i ddwyn cynnydd adnewyddol a beunyddiol i'r grefydd Gatholig. O herwydd y rheswm hyn yr ydym yn cadw i ni ein hunain ac i'n holynwyr yr hawl i ranu y dalaith hon i amryw, ac i chwanegu nifer ei hesgobaethau, fel y byddo rhai newydd yn ofynol, ac yn gyffredinol i sefydlu eu terfynau modd yr ymddengys yn gymmwys ger bron yr Arglwydd." Yn y cyfamser gorchymynir i'r arch-esgob a'r esgobion "i anfon ar brydiau pennodol adroddiadau (*reports*) parth cyflwr eu heglwysi i'n cynulleidfa o'r Propaganda ac i beidio esgeuluso ein hysbysu ar bob pwngc perthynol i les ysbrydol eu praidd. Nyni a barhawn i wneud defnydd o gynhorthwy cynulleidfa y Propaganda mewn oll a berthyn i fatterion yr eglwys yn Lloegr.'' Terfyna y *Bull* trwy "alw am gymmorth yr Holl-alluog i'r 'gwaith mawr' hwn, eiriolaeth sanct-eiddolaf Fam Duw, yr Apostolion St. Pedr a St. Paul ynghyd a'r lleill o nefol noddwyr Lloegr, a St. Gregory Fawr yn bendifaddeu."

AM YR ACHOS A'R EFFAITH O GYHOEDDIAD Y BULL UCHOD.

Gellsid llanw yr 'Ymofynydd' drosodd a throsodd, heb adrodd mo'r hanner o'r hyn sydd wedi ymddangos yn y newyddiaduron eisioes ar y pen. Yn ôl ein barn ni mae mwy nag oedd gyfiawn a gweddus wedi cael ei ysgrifenu neu ei ddywedyd yn gyhoeddus ar y pwngc, gan rai gwyr uchel mewn swydd ac urddas yn y wladwriaeth. Cyfeirio yr ydym yn benaf at Arglwydd Truro, ac Arglwydd J. Russel. Gan nad faint eu pleidgarwch i'r eglwys sefydledig, dylasent gofio eu bod yn brif swyddogion mewn gwladwriaeth ag sy'n proffesu rhyddid crefyddol i babyddion fel i bleidiau ymneillduedig eraill—a gwladwriaeth hefyd lle mae nifer yr ymneillduwyr, ar y cyfan, yn llawer amlach na'r rhai sy'n perthyn i eglwys y llywodraeth. Nid ydym ni yn anghofio fod y ddau wr mawr a gyfeiriasom attynt, wedi bod cyn hyn yn bleidwyr gwresog dros ryddid crefyddol i bob plaid fel eu gilydd. Ond am yr esgobion a'r offeiriaid a'r rhai a'u pleidiant trwy bob trwch, gellsid passio heibio iddynt; nid yw yn ryfedd genym eu bod hwy yn gwingo o dan y driniaeth newydd ac annisgwyliadwy a gawsant ar law Esgob Rhufain. Yr oeddent yn tybied eu bod, ac eu bod yn cael eu hystyried yn olynwyr yr Apostolion, ac mai rhwygwyr a hereticiaid, yn ngwydd yr eglwys, oedd yr holl bleidiau ymneillduedig, y naill fel y llall. Ond, ow! ow! dyma y prif-esgob, ie esgob Rhufain, yn cyhoeddi yn awdurdodol, fod offeiriaid ac esgobion Eglwys Loegr yn gymaint o hereticiaid a neb o'r ymneillduwyr!! Ac o'r herwydd yr appwyntiodd y Pab Arch-esgob, ac esgobion, wedi eu gwir awdurdodi ganddo, i arolygu gweinyddiad y sacramentau a'r ordeinhadau trwy hyd a llêd y wlad. Dyma ergyd ofnadwy, onide, ac o Rufain hefyd, at ben Eglwys y llywodraeth? Dim awdurdod Apostolaidd yn perthyn iddi! Dim mwy nag i'r ymneillduwyr dirmygedig! A ydyw yn bosibl i wyr yr eglwys waddoledig oddef y fath beth? A allan hwy oddef i gael eu cyfrif, pa un ai gan y Pab neu neb arall, fel rhai ag sydd mor amddifad o awdurdod Apostolaidd ag yw yr ymneillduwyr? Na, na, yn hytrach cynhyrfer y wlad a therfysger hi drwyddi draw; anfoner annerchiad gwrthdystiol o bob talaith a phlwyf, a gosoder *mobs*, yn ôl yr hen arfer ar y 5ed o Dachwedd, i losgi Guy Fawkes, &c, &c., er dangos fod y wlad yn gwbl Brotestanaidd, ac i ddangos fod yr eglwys sefydledig yn meddu ar lawn ac unigol awdurdod i weinyddu ordeinhadau Crist yn Nghymru a Lloegr! Ond pa beth sydd gan gyfeillion yr Ymofynydd a rhydd-ymofyniad, a'r ymneillduwyr Protestanaidd yn gyffredinol i'w wneud, dan y perwyl pwysig hwn? Nid oes ganddynt, debygem ni, ond un o ddau beth i'w wneuthur, naill ai sefyll yn dawel, er cymeryd addysg oddiwrth yr amgylchiad, ac i edrych fod chwareu têg i ryddid cydwybod, y naill du fel y llall; neu ynte, i fyned â rhâff am eu gyddfau at yr Eglwyswyr, a dywedyd wrthynt yn dra gostyngedig, "Yn wir, Syrs, yr ydym yn credu eich bod chwi yn wir olynwyr yr Apostolion, *serch* bod y Pab o Rufain wedi dywedyd nad ydych." Pa beth arall sydd gan yr ymneillduwyr i wneud a bod yn gyson (os byddant gyson) â'u hegwyddorion proffesedig? Nid ydym yn meddwl

eu bod mor wan ag i uno â'r hen floedd "No Popery;" llawer llai i floeddio, "Mawr yw ein Heglwys sefydledig."

Dyma ein syniadau a'n teimladau ni ar y peth; barned ein darllenwyr, pob un drosto ei hun. Pe buasai ond Eglwys Loegr ac Eglwys Rhufain i ganattai yr un rhyddid, ni fuasai genym mo'r un cweryl yn eu herbyn. Ond fe wyddys mai nid felly y mae. Mae un eglwys yn honni ei bod yn anffaeledig, a'r llall ei bod bob amser ar yr iawn: fel y mae gofyn hollti blewyn er gweled y gwahaniaeth rhwng honniad y naill a'r llall. Rhwng y ddwy eglwys hyn mae y cweryl presenol.

Ond am *achos* cyhoeddiad y *Bull* diweddar, y mae'n amlwg fod y Pab a phabyddiaeth yn awr fel cynt yn dymuno ac yn amcanu (os gallant) ddwyn yr holl fyd o dan eu llywodraeth, a Phrydain Fawr yn neillduol. Nid yw hyn yn newydd i neb. Nid yw y Pab yn ei "Lythyr" gymaint ac yn chyfeirio at y *ffaith*, fod Westminster Abbey a'r adeiladau gorwych o'r fath, a'r rhan fwyaf o'r eglwysi plwyfol wedi cael eu hadeiladu a'u cyfoethogi gan Babyddion ac at amcanion Pabaidd. Nid yw yn cynnyg ymosod ar y degymau, na chyfoeth y prif-athrofäu. Ond y mae, mewn geiriau di-ddaufeddwl, yn rhoddi ar ddeall fod llawer iawn o offeiriaid, &c., yr eglwys yn tueddu at Babyddiaeth, fel y mae amryw o honynt eisioes wedi troi yn Babyddion.

Ac am *amcan* y Llythyr Apostolaidd, yn ôl ein barn ni, annheg ac annghyfiawn fyddai barnu ei fod yn groes neu yn wahanol i'r hyn y mae yn hysbysu; sef, awdurdodi offeiriaid Pabaidd (o dan oruwch-lywodraeth esgobion taleithiol) i weinyddu ordinhadau Cristnogrwydd trwy bob parth o'r wlad.

Ond nid ydyw yn beth i'w guddio, fod Pabyddiaeth yn waeth na bod yn gyfeiliornus. Traws-arglwyddiaeth ysbrydol ydyw. Y mae yn draws-arglwyddol mewn egwyddor ac mewn gweithrediad. Nid ydyw yn celu ei phenderfyniad i gael y byd, os y gall, o dan ei hawdurdod.

Nid ydyw chwaith yn proffesu ei bod yu gwella gydâ chynnydd y byd mewn gwybodaeth. Ond *bost* y cyfundraeth yw, ei bod yn anghyfnewidiol. Gellid dywedyd llawer am ei chastiau erledigaethus yn yr amseroedd gynt a'i dylanwad llygredig a chaethiwus presenol ar amryw o deyrnasoedd y cyfandir; ond ni chaniateir lle i hyny ar y pryd hwn. Digon yw dywedyd ein bod ni o herwydd rhesymau da yn gwbl wrthwynebol i Babyddiaeth, ac yn benderfynol i'w gwrthwynebu, ac os gallwn, ei dileu. Ond trwy ba foddion? Yn mha gwmniaeth? A chyda pha amcan? Sicr, nid trwy gyfodi nac annog erledigaeth, na chaethiwo rhyddid neb o'n cyd-ddeiliaid, yn fwy na'u gilydd. Nid ychwaith mewn cyngrair a'r sawl o fewn ein gwlad ag na fynnant fod neb pabau yma ond hwy eu hunain. Ond y mae'r Argraffydd yn ein rhybuddio, fod y lle yn brin. Rhaid i ni o'r herwydd adael y pwngc ar ei hanner, neu yn hytrach gyda'i ddechreu. Bydd gennyn ragor i'w ddywedyd yn ein rhifyn a'n cyfrol nesaf; os caniateir bywyd a nerth.

I.

DYSGEIDIAETH.

TUA dechreu mis Tachwedd aeth Mr. John Jones, Blaenbronfain, Llanwenog; a Mr. Henry Oliver, Llanfynydd, Astudwyr Yngholeg Caerfyrddin dan olygiaeth y Parch. D. Lloyd, M.A., a'r athrawon eraill; i Lundain i'w holi mewn gwahanol ganghenau dysgeidiaeth cyssulltiedig a *degrees B.A.*, a phrofasant eu hunain yn deilwng i'w rhesu ymhlith y *dosparth blaenaf* yr hyn sydd wobr briodol iddynt am eu diwydrwydd yn ystod yr amser y myfyriasant yn y Coleg. A gellir sylwi hefyd yn chwanegol fod yn llawer o fantais i'r Cymry fod Coleg mor dda yn eu plith, a'i freintiau i gael eu mwynhau gan ddynion ieuainge, perthynol i bob enwad crefyddol yn ddiwahaniaeth—da pe buasai yr egwyddor yn fwy cyffredin.

T. E.

MARWOLAETHAU.

Hydref y 22ain. yn 49 oed, bu farw Evan Davies, Ysw., Meddyg, Dinas, yn Morganwg,—dyn synwyrol, caruaidd, pwyllog; cyfaill serchog, a meddyg deallgar a medrus; a thra pharod i gydymdeimlo a'r cleifion—yn anghyffredin iawn y gwelid ei fath. Oddieithr yr amser y bu yn Llundain yn myfyrio tuag at ei alwedigaeth, treuliodd ei fywyd oll yn ngwlad ei deidau. Cymaint oedd ei ofal, fel meddyg, dros hir flynyddau, yn ngwaith y Dinas a'r cylchoedd, fel nad aethai braidd oll allan o'r gymydogaeth; lle y mae llaweroedd etto yn teimlo ac yn siarad yn barchus am dano, ac yn alarus o herwydd ei golli. Nid yw ond cyfiawn i ddywedyd am y cyfaill ymadawedig, ei fod yn cael ei barchu fwyaf gan y sawl a'i hadwaenent ef oreu. Yn meddu ar feddwl treiddgar a gwybodaeth helaeth, ac yn hynod foneddigaidd mewn tymher ac ymarweddiad—pell iawn oedd efe o ymhoffi yn nghyfeillach crach-foneddigion, nac mewn unrhyw fympwy na rhodres. Ond dynion pwyllog ac ymofyngar, yn enwedig dynion ieuainge ymofyngar ac awyddus am wybodaeth a welid yn cyrchu yn aml i "dy'r Doctor," lle y derbynid hwy yn roesawus. Yn nesaf at gyflawni dyledswyddau ei alwedigaeth, yr oedd yn hoff waith ganddo i ymddiddan a dadleu ar byngciau crefyddol ac athronyddol. Yr oedd Mr. D yn cofleidio Cristnogrwydd oddiar ymchwiliad i'w phrofion ac argyhoeddiad o'u gwirionedd, ac yr oedd yn Undodwr zelog. Ond byddai crefyddwyr a gweinidogion o wahanol enwadau yn cyrchu atto yn fynych ac yn hoffi ei gyfeillach.

Er ei fod ef yn darllen llawer ac yn fanwl ar awduron Seisnig, nid ysgrifenodd ddim i'r cyhoedd ond yn Gymraeg. Yn 1827 cyhoeddodd "Y Meddyg Teuluaidd" (The Family Physician) yr hwn sydd i fesur yn eithriad, gan ei fod wedi ei argraffu mewn dwy golofn, Cymraeg a Saesoneg, y naill gyferbyn a'r llall. Ni pharhawyd y Cyhoeddiad yn mhellach na'r trydydd rhifyn.

Gobeithio y gwelir lle i ran fawr o'r cynnwysiad buddiol i gael ymddangos yn rhifynau dyfodol yr Ymofynydd.

Bu Mr. D. am flynyddau yn ohebydd cyson i "Seren Gomer," a thros ryw amser, mewn dadl gyfeillgar â'i gymydog, y diweddar Mr. Edwards, o'r Dinas, ar byngciau perthynol i anghenrheidrwydd, &c. Yn 1846 cyhoeddodd "*Rhifedi ac Undod Duw, Nodiadau ar Ddarluniadau ac Eglurhadau y Parch. J. Jones, Rhydybont, ar Athrawiaeth y Drindod.*" Gwedi hyn ymddangosodd rhai Llythyrau rhyngddo a Mr. J. ar y pwnge' yn "Y Golygydd."

Pan y gosodwyd yr Ymofynydd ar droed tua diwedd 1847, yr oedd Mr. D. gyda'r blaenaf a'r gwresocaf o'i annogwyr. Yr oedd yn addaw, ac yn ddiau yn bwriadu ei gynhorthwyo yn barhaus trwy ei ysgrifeniadau. Ond ni chaniataodd rhagluniaeth hyny o fantais i'r Ymofynydd. Gwedi rhai misoedd o ddolur trwm yn y gymydogaeth ag oedd yn gofyn ei holl ofal a'i holl amser fel meddyg, tarawyd ef ei hun gan ddolur ag a'i hanalluogodd ef i ysgrifenu, ac o'r diwedd a fu'n foddion i'w symud o blith y byw.

Ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, pan y daeth i ymweled â'r ysgrifenydd, dywedodd "ei fod yn ofidus ganddo ei fod ef wedi ei analluogi i ysgrifenu i'r Ymofynydd, ond ei fod yn gobeithio y byddai i'r rhai ag oeddent yn alluog, i wneuthur eu rhan tuag wneud y cyhoeddiad y peth a ddylai fod.

Y peth nesaf oedd, myned i'w angladd—gyfeled y galar naturiol oherwydd yr ysgariad oddiwrth briod a phlant anwyl; a'r lluaws mawr ag oedd wedi ymgynull i'w hebrwng i "dy ei hir gartref," a chael y fraint o ddywedyd gair uwch ben ei fedd. Ffarwel Gyfaill! Ti aethost trwy y glyn. Nyni a'th ganlynwn ar fyr iawn. Ond ti a ymadewaist mewn gobaith, ninau hefyd a obeithiwn yn hyderus, ar sail addewiddion Crist, y cawn etto gyfarfod yn ardaloedd y bywyd gwell. I.

"Gwyn fyd y marw, a glyw 'n 'ddi-orn
Y gorfoleddus lef,
Gan ddefiro dann beroriaeth corn
Archangel mawr y Nef."

Salmau Iolo, 139.

Hydref 31, bu farw Jane, merch henaf Daniel Jones, Maesllwyd, Cribyn, Ceredigion; er galar cyffredinol. Cerid hi yn fawr o herwydd ei thymher fwynaidd, a gwelwyd yn eglur nad yw harddwch corphorol, serchogrwydd, na diniweidrwydd, ond arfau gweinion yn ngwyneb brenin braw; pe amgen, diamheu y buasai hon ar dir y byw.

Ymddangos wnae y siriawl fur,
Yn hardd ei llun am enyd;
Ond gwywo wnaeth fel rhosyn mir
Yn ngwanwyn i'r ei bywyd,
Er hyny ail-flaguro ga
Ar fryniau tragywyddolfyd.

D. T.

Tachwedd 4ydd, bu farw yn 83 mlwydd oed Mr. John Lewis o'r Penfarch, ym mhlwyf Llanfynydd yr hwn fwynhaodd iechyd gweddol hyd o fewn i ychydig amser i'w farwolaeth, roedd yn ddyn lled gyfrifol yn ei gymdogaeth, parhaodd ei gynheddfau heb wanychu hyd derfyn ei ddyddiau, roedd yn aelod yn Cwmmawrdu, a theimlir hiraeth ar ei ol gan ei gyfellion Undodaidd ag eraill heblaw gan nifer liosog o blant ag wyrion. Pregethwyd yn ei Angladd oddiwrth 2 Corinthiaid iv. 16. gan y Parch. D. Lloyd, M.A., Caerfyrddin.

T. E.

BARDDONIAETH.

SYRTHIAD Y DAIL.

Efelychiad o Saesoneg Dr. Horne.

Wele'r dail oe'nt gynau 'n lliwgar
Heddyw 'n syrthio 'n wyw i'r ddaear;
Traethant hyn'a llais difrifol
Wrth farwolion anystyriol:

[illegible]ibion Adda (gynt yn Eden
Syrthio wnaeth ef er mor gymhen)
Clywch y ddarlith 'r ym yn draethu:
Mae 'n alarus! gwir er hyny.

Nac ymffrostiwch, hardd wyryfon,
Ar eich gwridgoch ruddiau tlysion;
Ddoe 'r oem ni mewn gwisg osgeddig,
Eithr heddyw yn wywedig.

Ienctyd hoenus, sydd mewn iechyd,
Heb ddyoddef loes na thristyd;
Gall yr angeu ddod i'ch haddef,
Haf a ddyry le i hydref.

Yn flynyddol 'rym yn profi
Fod gaua[illegible]ydd yn dynesu;
Gwir yw'r hyn 'r ym yn ddesgrifio,
Nef a daear a ant heibio.

Ar flodeuog bren y bywyd
Dyro ddyn, dy bwys a'th oglud;
Hwn a ddeilia mewn addurniant
Byth yn nhawel fro gogoniant."

Ceredigion. D. T.

AT EIN DARLLENWYR A'N GOHEBWYR.

Gorfu arnom y Mis hwn adael allan amryw ohebiaethau gwerthfawr o ddiffyg lle: cânt ymddangos ar fyr. Gobeithio hefyd y gallwn roddi Hanesion Gwladwriaethol yn fwy rheolaidd o hyn allan.

JOHN RICHARDS, *Dinas.*—Y mae eich ysgrif wedi ei chyfansoddi yn rhy esgeulus i gael ymddangos o flaen y cyhoedd. Dywedwch eich bod yn amcanu "*amddiffyn* yr hyn a welwch yn *feius* yn ysgrifau Philalethes!" Ai possibl? Dychwelir eich ysgrif er rhoddi cyfleusdra i chwi ddiwygio y gwall. Rhaid i ni alw eich sylw at y ffaith, mai *gwall argraffyddol* (tudal. 187) oedd amseru trydydd dadguddiad Joseph Smith yn 1832. Dylasai fod "y 22 o Fedi 1823.

D. Evans, Argraffydd, Caerdydd.